# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 468 | Chwefror 2026 | Pris £1.50


# BWRLWM EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS

## Bwrlwm y Pwyllgorau Apêl

Mae'r gwaith o godi arian tuag at yr Eisteddfod yn mynd yn ei flaen yn hwylus dros ben. Mae'r bwrlwm a'r brwdfrydedd  yn hollol heintus ac mae'n wych gweld cymaint o weithgareddau gwahanol ac amrywiol yn cael eu cynnal ar hyd a lled y dalgylch. Cynhaliwyd 60 o ddigwyddiade ym mis Tachwedd a Rhagfyr, sy'n 1 gweithgaredd y dydd ar gyfartaledd. Mae hyn yn hollol rhyfeddol a mae'r pwyllgorau apel yn llwyddo, nid yn unig i godi arian, ond i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod yr Eisteddfod yn dod i'r ardal ac hefyd yn tynnu cymunedau at eu gilydd. Mae gennym dudalen facebook "Digwyddiadau Eisteddfod Y Garreg Las", ymunwch gyda hwnnw i weld lluniau a fideos o weithgareddau sydd wedi digwydd, yn ogystal a'r gweithggareddau sydd ar y gweill.

*Parhad ar dudalen 24.*



**Recordiwyd rhaglen arbennig o Dechrau Canu a Dechrau Canmol yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi dan arweiniad Islwyn Evans. Bydd hwn yn cael ei ddarlledu ar S4C ar Fawrth y 1af.**



**Tudor Lewis, trefnydd y daith tractorau er budd Pwyllgor Apêl Llanboidy a Llanwinio, yng nghwmni ei wraig Eleri a'r teulu, cyn iddo arwain y ffordd i yrrwyr y tractorau eraill ar hyd hewlydd yr ardal.**

## Dydd Gŵyl Dewi Hapus



**Dymunwn ddydd Gŵyl Dewi Hapus i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach**

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Marian Thomas 01994 230121 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips 07930 520564<br>46 Resevoir Road Tanerdy Caerfyrddin SA31 2ER |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **8fed** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, Caerdydd*

Mae hi'n ddechrau mis Chwefror, a dydw i ddim yn meddwl fy mod i wedi profi unrhyw ddiwrnod cwbl sych eto yn 2026. Glaw, glaw a mwy o law….

Ddoe fe es i, i dorri fy ngwallt cyn iddo gael ei sychu'n gelfydd gyda sychwr ac yna teclyn arall i roi mymryn o gwrls. Parodd y steil hwnnw am ychydig eiliadau rhwng y til a drws y siop. Erbyn i fi gyrraedd adre', roeddwn i'n edrych fel pe bawn i newydd godi o'r sinc yn y siop trin gwallt!

Dyna ddigon am ddiflastod glaw!

Rwy'n cofio sôn wrth ein tywysydd ar daith drwy gaeau reis yn Bali fis Medi diwethaf ein bod yn cael glaw yn aml iawn yng Nghymru. Roedd hi yn meddwl bod hynny yn gwbl wefreiddiol, yn enwedig gan ei fod yn law oer… Ond nid yn nwyrain Asia mae'r ardaloedd sychaf ar y ddaear chwaith, nac yng nghanol diffeithwch, ond yn hytrach yn Antarctica, mae'n debyg.

A'r lle gwlypaf ar y ddaear ydy pentref o'r enw Mawsynram yng ngo-gledd-ddwyrain India sy'n profi 11,871 milimetr o law ar gyfartaledd bob blwyddyn.Er mwyn rhoi hynny yn ei gyd-destun, mae'r lle enwocaf am law yng Nghymru - Blaenau Ffestiniog ar gyfartaledd yn profi ychydig mwy na 3,000 milimetr o law.

Ydy, mae hi wedi bod yn bwrw glaw am hydoedd, ac nid son am ddechrau 2026 yng Nghymru ydw i… Mae gwyddonwyr wedi dod o hyd i ffosiliau sydd ag ôl glaw arnyn nhw 2.7 biliwn o flynyddoedd yn ôl. Ac nid ar ein planed ni yn unig mae hi'n bwrw glaw. Mae math gwahanol o law ar blanedau Sadwrn a Gwener hefyd.

Ac er ein bod ni'n dweud yn aml ei bod yn bwrw'n drwm, nid cyfeiriad at bwysau'r diferion o law yw hynny, gan fod pob diferyn ar gyfartaledd yn pwyso 0.001 owns. Er dyw hynny'n fawr o gysur pan fo fy ngwallt yn wlyb diferu funudau ar ôl gadael y siop trin gwallt.

A beth am yr hen goelion am ddarogan glaw? Gwartheg yn gorwedd mewn cae ? Medru gweld Ynys Enlli yn glir o Fae Ceredigion? Ac mae'r dywediad  Bwrw hen wragedd â ffyn wastad yn codi gwên. Ac un o'r caneuon cynta i mi ei dysgu yn yr ysgol feithrin, fel nifer ohonoch mae'n siŵr oedd…

Bwrw glaw yn sobor iawn,
Wel dyma b'nawn anghynnes,
Mochel dan yr ambarél,
A cherdded fel brenhines

Ffaith arall – mae hi'n cymryd ychydig yn fwy na dwy funud i ddiferyn o law lanio ar y ddaear, neu ar ein pennau, os ydym wedi anghofio ambarél. A dyna'r wers am wn i , hyd yn oed pan fo rhywun yn gadael y tŷ yng nghanol heulwen braf, rhaid cofio ambarél, os am gerdded fel "Brenhines" ar ôl gadael y siop trin gwallt, yn hytrach na hwyaden!

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Trefina Jones
01267 211210
tjtrefina@aol.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch. Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
Tabernacl Heather Jenkns
Meryl James
meryljames534@btinternet.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Jayne Young
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Eurfyl Lewis
01994 419495
eurfyllewis@btinternet.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Delyth Ifan
delythifan@gmail.com
07875289248
SANCLÊR: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Parchg Sian Elin Thomas*

Dyma ni'n agoshau i fis Mawrth unwaith eto, mis sydd yn arwain tuag at y Pasg a mis ble rydym yn dathlu ein mamau, a hefyd y mis ble rydym yn cofio am Dewi Sant. Y dyn sydd erbyn hyn wedi dod yn ffigwr o undod genedlaethol. Ond dwi'n credu bod e'n tipyn fwy na hynny.
Yng ngeiriau'r emyn plant gan Ceri Gwyn a Myfanwy Bennett Jones.
Dewi Sant, Cofiwn Dewi,
cofiwn am y pethau bach a'r pethau mawr.
Bob blwyddyn ar ddechrau mis Mawrth rydym yn cymryd y cyfle i gofio am ein nawddsant.
Cofiwn am y gwyrthiau, pregethau a gweithredoedd oedd yn ei osod ar wahân i bawb arall.

Doedd dim diddordeb ganddo i ddilyn y dorf, ond i ddilyn Iesu.
Pregethodd yr efengyl, ond fe wnaeth e fyw e hefyd.
Ar ambell i Sul dwi'n myfyrio ar hanesion Ysgol Sul fel dwi'n eu galw nhw, a'r neges sydd gyda nhw i ni yn nawr fel oedolion. Arch Noa, Dafydd a Goliath a Samson i enwi ond rhai. Yr hanesion hynny clywsom ni droeon fel plant ifanc gyda'n hathrawon Ysgol Sul ymroddedig. Yr hanesion hynny oedd yn egino ein dychymyg.
Ac un stori cawsom adeg Gŵyl Dewi yn yr Ysgol Sul oedd y wyrth ryfeddol o'r tir yn codi o dan draed Dewi wrth iddo annerch y bobl o'i gwmpas, y dyrfa anferth a ddaeth at eu gilydd ond oedd yn methu clywed ei neges.
Mae'r wyrth yma yn dangos gras Duw, ond hefyd mae e'n dangos y gallu oedd gyda Dewi i uno. Uno pobol at eu gilydd i addoli'r Arglwydd, sydd yn neges hynod bwysig drwyddi draw yn yr Efengylau.
Wrth gloi ei ail lythyr i'r Corinithiaid, dywedodd Paul fod rhaid bod yn llawen, sydd yn un o negeseuon mwyaf pwysig Dewi, ond hefyd dywedodd hyn yn y dair adnod diwethaf o'r llythyr, (pennod 13 adnodau 11-13)
Cytunwch â'ch gilydd, a byw mewn perthynas iach â'ch gilydd. A bydd y Duw sy'n rhoi cariad a heddwch perffaith, gyda chi. Cyfarchwch eich cyd-Gristnogion yn llawn cariad. Dwi'n gweddïo y byddwch chi i gyd yn profi haelioni rhyfeddol yr Arglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a'r rhannu hwnnw mae'r Ysbryd Glân yn ei ysgogi.
Wrth i Paul gloi'r llythyr, mae e'n dweud wrthom yn syml iawn i gadw fynd gyda'r gwaith da a pharhewch i fyw mewn undod.
Ac amser roedd Dewi yn cerdded ar y ddaear yma roedd yna rwygau, y gwahanol lwythau yn anghytuno, roedd yna frwydrau ffyrnig rhwng y Cymry a'r Sacsoniaid, pryd wnaeth Dewi, yn ôl y sôn, annog y milwyr Cymreig i wisgo'r genhinen yn eu cap fel eu bod nhw yn uno ac yn adnabod eu gilydd yn y frwydr.
Roedd gan Dewi'r gallu i uno pobl, ddim yn y concwestau mawreddog neu weithredoedd gwleidyddol, ond yn ei gryfder tawel, ei ffydd gadarn, a'i wasanaeth diffuant a ddiysgog. Mae bywyd Dewi yn atgoffa ni bod undod yn dechrau gyda'r gweithredoedd bach ac ystyrlon ac yr awydd i gyd-weithio am yr un pwrpas, sef ein hunaniaeth. Yn gywir fel mae Paul yn dweud yn ei lythyr i'r Eglwys yn Corinth, ond sydd yn neges yr un mor bwysig heddiw, i gytuno â'n gilydd, a byw mewn perthynas iach â'n gilydd yn enw Iesu Grist.
Pob bendith i chi gyd.

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Yn nôl yr **Almanac**, cyfrol y cyfeiriais ati ym mis Ionawr, 'mis du wedi'r Dolig' ydyw. Bu'n fis hir a digon oer ond yn gyfle i swatio gyda ffuglen ac angen am ddos o ddoniolwch i fyrhau'r gaeaf.

Yn gyntaf **Dant am Ddant** gan Cefin Roberts a ddisgrifir ar y clawr fel 'reiat o nofel i oedolion'. Fues i ddim yn canu cerdd dant erioed ond mae Carys Cae Haidd a Genod Colman yn gymeriadau ac yn cael lot o sbort; eu harweinydd crand, Awen yn pwdu a hithau â'r gŵr perffaith, Meurig yn adlais o sgetsys Glenys a Rhisiart gynt. Mae enwau rhai o'r lleill yn awgrymog - Dilys Double Tops, Non Event a Second Linda ac mae yma hefyd 'feheryn hoyw' – hwrdd i chi ym mro'r Cardi Bach. Yn dilyn yr Ŵyl Gerdd Dant mae Carys yn feichiog a phwy tybed yw'r tad? Ar ôl colli yno, a chael hyfforddiant ar osod i Awen, mae'r Genod yn mynd amdani erbyn y Genedlaethol yr haf canlynol i guro Lleisiau Gelynnen – neu 'lleisiau'r gelynion' fel mae'r genod yn eu galw. Fe ddysgwch dipyn am groes acennu ac am gythraul canu cecrus y byd cerdd dant. Mae pob gair o'r nofel yn dychanu'r byd cystadlu Eisteddfodol ac ambell gôr arall megis 'Cantonion Tâf' a 'Cantonion Canna' yn rhoi golwg ar fyd dosbarth canol Pontcanna. Do, ces sawl pwl o chwerthin yn ei darllen a chael fy nhiclo gan ddewis Awen o baent ei chegin grand - gan i chwaer yng nghyfraith yr awdur yn Siop Pethau Bychain yn y dre awgrymu'r union baent i mi!

Yna nofel Sioned Wiliam, **60 Rhywbeth** a'i darllen wedyn i Lyfrau Llafar. Ar brydiau bydd rhaid atal y recordio wrth faglu ac yn aml oherwydd tristwch y dweud ond gyda hon, i biffian chwerthin. Myfyrdodau tair a geir yn eu tro – Anwen â'i gŵr wedi'i gadael am fodel iau, Delyth ddi-briod, ariannog sy'n gweithio mewn swyddfa, a Nia sy'n briod â ficer sydd newydd ymddeol ac wedi dechrau seiclo mewn lycra tynn! Maen nhw'n helpu'i gilydd drwy eu hargyfyngau, ond mae tyndra rhyngddynt. Wrth ddarllen ymlaen rhaid cyfaddef i'r pyliau o chwerthin fynd yn llai. Nofel i ferched mae'n siŵr er byddai'n llesol i'r dynion ei darllen er mwyn ein deall yn well. Er heibio'r 60 ers sbel gallwn uniaethu â'r tair ar brydiau!

O'r llon i'r lleddf ar gyfer y drydedd, sef nofel ddiweddaraf Mari Emlyn, **Paid Â Deud.** 'Os yw 'th galon bron â thorri, paid â dweud,' meddai'r hen gân ac nid yw Linda yn rhannu ei phrofiadau ac mae hynny'n cael effaith ddirdynnol arni hi ac aelodau eraill o'i theulu. Mae tair rhan iddi - yn dechrau yn 1982 pan oedd tad Linda yn bennaeth parchus ysgol a phob pennod wedi'i hysgrifennu o safbwynt un o'r cymeriadau – ei dri phlentyn a'u ffrindiau. Mae'n neidio wedyn i 2024 a'r flwyddyn ganlynol. Mae yma gyfrinachau a'r euogrwydd o beidio â'u rhannu. Y neges yw na ddylid yn sicr ddilyn cyngor y gân werin. O ystyried yr achosion enbyd a fu y llynedd yn y newyddion am drais yn erbyn merched a phlant mae'n peri i rywun feddwl beth yw effaith hirdymor hynny ar y dioddefwyr a chost enbyd caniatáu i droseddwr gam-drin eraill. Roedd y cyfeiriadau at achosion adnabyddus y gorffennol yn y nofel hwnt ac yma yn hala ias lawr fy nghefn. Nid yw'n canolbwyntio ar y cam-drin fel y cyfryw ond yn datgelu ei effaith ymhen rhai blynyddoedd ar gymuned gyfan mewn modd hynod o afaelgar.
Beth am Chwefror? 'Mis bach, mawr ei anghysuron' yw hwnnw meddai'r Almanac. Felly chwiliwch am ddihangfa mewn llyfrau eto fel minnau.

---

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach a diogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb a braf yw cael croesawu aelodau newydd i'n plith eleni eto. Serch hyn, gofynnaf yn garedig i'r ffyddloniaid hefyd i ymaelodi cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r clwb ac yn hynny o beth, cefnogi'n papur bro.

Fe gofiwch chi fod ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn rhifyn diwetha'r Cardi Bach.

Mae dod yn aelod yn rhwydd - danfonwch siec i mi am £10 gyda'ch enw a chyfeiriad, neu allwch dalu drwy system BACS y banc. Y manylion sydd angen arnoch i wneud hyn yw 40-46-27 a 91020765 a'ch enw chi fel cyfeirnod. Os ydych am dalu fesul archeb banc yn flynyddol, cysylltwch â mi am ffurflen.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,
Rhian

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbott*

Dyma rywbeth i chi ar gyfer mis y corrach
Atebwch y cwestiynau yn ol yr enghraifft
Mae dewis o bethau i chi i'w gwneud. Joiwch

Faint o brofiad sy 'da ti? Does fawr o brofiad 'da fi

Faint o arian sy 'da ti?

Faint o obaith sy 'da ti?

Faint o amser gest ti?

Faint o lwc gest ti?

Wyt ti'n chwaraewr da? Nadw, dw'in______________
Wyt ti'n ganwr da?

**Hyn / Hynny**

Dw i ddim yn credu hyn
Fyddwn i ddim yn credu hynny chwaith

Dw i ddim yn yfed hwn

Dw i ddim yn gwisgo hon

Dw i ddim yn bwyta'r rhain

Dw i ddim yn derbyn hyn

**Geirfa: -adwy**

dibynadwy - dealladwy - annealladwy - darllenadwy - annarllenadwy - bwytadwy - anfwytadwy - credadwy - anghredadwy - amhrisiadwy - bythgofiadwy - ofnadwy

Mae'r cig yma'n ______________________

Mae'r llyfr yn ______________________

Mae'r stori'n ______________________

Mae'ch llawysgrifen yn ____________________

Mae e'n berson _______________________

Roedd e'n brofiad ____________________

Llenwch y bylchau â ffurfiau cywir yr ansoddeiriau mewn cromfachau

e.e. Hwn yw'r coffi cryfaf (cryf).

Maen nhw'n ____________________ (twp) o lawer na Ffred.

Ann fyddai'r ____________________ (da) fel cadeirydd.

Mae bwyd y Golden Wok ____________________ (da) â bwyd y Taj Mahal.

Dyma'r tywydd ____________________ (drwg) ers blynyddoedd.

Mae Caerdydd yn ____________________ (mawr) nag Abertawe.

Fi yw'r ____________________ (tal) yn y teulu.

Roedd dy wyneb di ____________________ (gwyn) â'r eira.

Penblwydd Hapus i Wyn Owens ar gyfer ei benblwydd yn 70 oed. Cafodd y ddau ohonon ein geni ar yr union dydd yn Chwefror 1956. (Albie)

Dymunwn benblwydd hapus iawn i Albie oedd yn 70 oed ar Chwefror 13eg. Daw'r cyfarchion wrth holl ddarllenwyr Y Cardi Bach, gan ddiolch o galon iddo am gyfrannu erthygl ddiddorol bob mis. (Gol)



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Beca

Gyda thristwchrhaid euch hysbysu ein bod wedi colli aelod annwyl, sef Eilir Davies, Tŷ Rhos. Fuodd Eilir yn aelod gyda ni am dros ddeng mlynedd ar hugain, wedi ymgymeryd a phob swydd o fewn ein cangen, ac yn wir, fuodd yn drysorydd hyd nes i ni ffarwelio a hi. Roedd yn aelod ffyddlon, ymroddgar ac annwyl, a bydd colled enfawr ar ei hol. Cysga'n dawel Eilir.

## Cangen Gronw

**Cyfarfod 29ain Ionawr 2026**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr ym "Mwyty Roadhouse", Hendy Gwyn ar daf am 1 o'r gloch.
Wedi dewis o'r fwydlen cafwyd cyfarfod byr.
Cofnodwyd enwau y rhai oedd yn bresennol ac wedi ymddiheuriio.
Cydymdeimlwyd â Marina sydd wedi colli modryb a dymunwyd wellad buan i Gwenda.
Trafodwyd apêl ein Llywydd Cenedlaethol sydd am i'r aelodau os yn bosib,i wau neu grosio blodau pinc i greu ffrog. Roedd tair o'r aelodau yn awyddus i gyfrannu a trafodwyd y rheolau a'r trefniadau.
Atgoffodd y trysorydd,y chwech aelod sydd wedi rhoi eu henwau i fynd i ginio ein Llywydd Cenedlaethol yng Nghrug Glas ar 25ain Ebrill ei bod yn bryd talu £28.
Diolchwyd i Meirwen am ei gofal o'r ochr ariannol o'r gangen bob amser.
Casglodd Mary enwau y rhai sydd am fod yn bresennol yn ein cyfarfod nesaf, i ddathlu Gŵyl Dewi, yng Nghaffi Beca ar 26ain Chwefror am 1 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at gwmni Jiwli Higginson i'n diddori.
Mwynhawyd bwyd blasus a diolchwyd i staff y Roadhouse. Hyfryd oedd cael cyfle i gymdeithasu.

## Cangen Hendygwyn


Ann Glanville fu'n cadeirio cyfarfod fis Ionawr o Ferched y Wawr ac ar ol dymuno "Blwyddyn Newydd Dda" i ni i gyd aeth ymlaen i gyflwyno ein gwr gwadd sef Mike Thomas yng nghymeriad 'Yr Abad Olaf'. Cafodd Mike ei eni a'i fagu drws nesa i Ann yn Lon Hywel, Hendygwyn ac mae ganddo ddiddordeb mawr mewn hanes lleol, yn enwedig hanes Abaty Hendygwyn. Cawsom brynhawn difyr iawn yn gwrando ar hanes y lle drwy lygaid yr abad olaf pan ddiddymwyd yr abatai gan Harri VIII.
Diolchwyd yn gynnes iawn iddo a dymunwyd yn dda i bob aelod sy'n anhwylus.
Darllenwyd llythyr i'r gangen oddiwrth Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gaerfyrddin i ddiolch am y casgliad hael a anfonwyd iddynt er mwyn prynu teganau i blant teuluoedd anghenus.Paratowyd te a bisgedi i ni gan Christian a Mererid ac atgoffwyd pawb taw Christian Donovan fydd ein gwraig wadd ar Chwefror 17eg. am 3.30 yng Nghanolfan Hywel Dda pan fydd yn son am ei theithiau diddorol yn yr Affrig.



**Margarette Hughes gyda Mike Thomas.**

## Cangen SanClêr

Cyfarfu'r aelodau am ginio blynyddol y gangen yn Yr Hen Ysgol ar Ionawr 10fed. Croesawyd pawb gan y llywydd, Eileen a bu'n cydymdeimlo gyda Joan ar farwolaeth ei ŵyr ar oed ifanc, ac â Janet ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith.
Offrymwyd gras gan Beti-Wyn a mwynhaodd pawb ginio hynod o flasus wedi ei baratoi gan Sue a'i staff o'r Hen Ysgol.
Cyflwynodd Eileen y siaradwraig wadd, sef Gwawr Lewis. Mae Gwawr yn adnabyddus i'r ardal fel merch Fferm y Neuadd ym Meidrim ac, wedi dilyn gyrfa gyda chwmni Telesgop, hi yw cynhyrchydd y gyfres "Ffermio." Difyr iawn oedd gwrando ar Gwawr yn son am ei magwraeth a'i gyrfa nes iddi gyrraedd ei swydd bresennol ac am y mwynhad mae'n ei gael o'r gwaith. Pleser oedd gwrando arni'n siarad mor rhwydd a diddorol. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Beti-Wyn.











**Cinio blynyddol yn Yr Hen Ygsol.**

Cyflwynodd Lilwen flodau i Gwawr fel gwetrhfawrogiad o'i chwmni. Cyflwynwyd blodau, hefyd, i Margaret Bowen a oedd yn dathlu ei phenblwhydd yn 80 oed ar Ionawr 11eg. Canwyd Penblwydd Hapus i Margaret ac i Iona a fyddai'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Ionawr 20fed. Diolch i Gwawr am ei hanerchiad diddorol, i Marian am drefnu, i Sue am y bwyd blasus, i Llilwen am drefnu'r blodau ac i Pat am ofalu ar ôl yr arian. Dymunwn yn dda i Pat sydd wedi torri ei phigwrn yn ddiweddar.



**Lilwen yn cyflwyno blodau i Gwawr.**

**Clwb Darllen**

Cafwyd amser difyr yn trafod y gyfrol "Almanac" gan Ruth Morgan a'i thair merch. Teimlwyd ei bod yn gyfrol y medrir ei throi ati dro ar ôl tro gan ddysgu rhywbeth newydd bob tro. Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf ar Fawrth 16eg i drafod "Dant am ddant" gan Cefin Roberts.

Mae Cyfeillion Côr Cwmann a'r Cylch yn trefnu trip gyda Midway Motors i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon rhwng Ebrill 9fed-12fed eleni.

Bydd cyfle i ymweld a nifer o atyniadau'r ardal o amgylch Kilkenny a Carlow. Croeso i bawb ymuno â ni!

Os am rhagor o wybodaeth cysylltwch a Geraint Davies 07534 249108




## Pice ar y Maen

**Cynhwysion**

- 250g / 8 owns o flawd hunan-godi
- Pinsied o halen
- 125g / 4 owns o fenyn
- 125g / 4 owns o siwgr mân (caster sugar)
- 1 ŵy mawr ac ychydig o laeth (os bydd angen)
- 75g o gyrens, sultanas neu geirios, neu ddarnau siocled.

**DULL**

1. Hidlwch y blawd a'r halen i bowlen fawr.
2. Ychwanegwch y menyn a chymysgwch nes eu bod yn edrych fel briwsion mân.
3. Ychwanegwch y siwgr a'r ffrwythau (os yn cael eu defnyddio) a chymysgwch gyda 1 ŵy wedi'i guro (a'r llaeth).
4. Gwnewch y toes i gylch mawr a'i rolio'n ysgafn.
5. Torrwch gylchoedd gyda thorwr bach a'u gosod ar badell ffrio drydan wedi'i chynhesu neu ar blanc.
6. Coginiwch am 5 munud ar bob ochr.






HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# BLAENWAUN

Llongyfarchiadau i Jane Evans, Blaenddôl bydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Fawrth 21ain. Carreg filltir arbennig. Mae'r ardal i gyd yn dymuno yn dda i chi.

**Capel Moriah**

Cymun 1af Chwefror: Gwasanaethwyd gan ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan. Testun yr anerchiad oedd hanes Luc am y bachgen Iesu yn y deml, a gofid ei rieni wrth chwilio amdano. Ateb Iesu oedd "gwyddwch mae yn nhŷ fy nhad y byddwn". Angen i bob un,  i holi ei hunan pam, a beth ydym yn gwneud yn "Nhy fy Nhad".  Wrth gwrs mae nifer o resymau, rhai crefyddol, cymdeithasol, addysgiadol, diwyllianol i enwi dim ond rhai. Ond beth mae yn olygu in ni yn bersonol? Cwestiwn digon teg.

Chwefror 22ain. Gŵyl Rhinwedd a Moes. Caffi Beca 10 o'r gloch. Gŵr gwadd Cleif Harpwood.

Mawrth 1af. Oedfa Gŵyl Dewi am 1.30
Parchedig Gareth Ioan

Ebrill 5ed Oedfa Pasg 2 or gloch
Cymun Undebol Parchedig Gareth Ioan.
Disgwylir aelodau Blaeycoed a Bryn Iwan i ymuno gyda ni.

Ymfalchiwn bod un o'n haelodau yn dathlu penblwydd arbennig ar Mawrth 21ain sef Jane Evans, Blaenddôl pan bydd yn cyrraedd 90 oed.
Pob dymuniad da oddiwrth y gweinidog ac aelodau'r capel. Mwynhewch y dathlu a iechyd da i'r dyfodol.

# RHYDYCEISIAID

Dynuniadau gorau am wellhad buan i Elfed Lewis, 3 Llyscoed ar ôl cael llawdriniaeth ar ei wyneb.

# MEIDRIM

**Henoed Meidrim**

Bu ein cyfarfod blynyddol yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Wedyn cawsom brynhawn o chwarae bingo dan arweiniad Glyn Rees o Sanclêr. Roedd yn brynhawn hwylus a phawb wedi mwynhau. Ar Fawrth 3ydd byddwn yn cael cawl yn y neuadd i ddathlu dydd Gwyl Dewi Sant. Bydd y cawl wedi ei baratoi gan Christine James. Pawb i ddod a basin a llwy eu hun i'r neuadd erbyn 1 o'r gloch. Yn rhoi raffl - Hilda, Meinir, Sara ac Arwyn.

# CWMFELIN MYNACH

Dymuniadau gorau i David Wood, Gwynfryn sydd yng Nghatref Nyrsio Plas y Dderwen.
….hefyd i Gwenda Williams, Woodlands sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

**Ramoth**

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Chwefror 1af dan ofal Mr Tudur Dylan Jones ac oedfa dan ofal y Parch. Huw George ar Sul, Chwefror 8fed. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth.

**Penblwydd**

Llongyfarchiadau i Hugh Lewis, Ffawydd, Hendygwyn a fydd yn 90 oed ar Mawrth 8fed.


**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn a theulu'r diweddar Haulwen Lewis, Cefnypant House (Trefyw gynt) a fu farw ym mis Ionawr.  Bu'r angladd yn Ramoth ar fore dydd Sadwrn, Ionawr 31ain dan ofal y Parch. Huw George. Roedd Haulwen yn aelod yn Ramoth ers blynyddoedd a chofiwn am Delyth, Lyn, Dorian a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Roy Reynold a fu yn yr ysbyty am gyfnod ond adref erbyn hyn.
….hefyd i Roy Llewellyn sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

## HENLLANFALLTEG




## TRELECH

Penblwydd hapus i Terry James, Fronglyd ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.



Dyma Charlie Horn, ŵyr Maureen Rees, Blaendewi Fach, wedi iddo ennill dwy fedal aur wrth chwarae tenis gyda Chlwb Tenis Caerfyrddin.



Dyma lun o wyrion Maureen yn mwynhau yn yr eira ar ddechrau'r flwyddyn. Am glamp o ddyn eira.

## RHYDWILYM

**Capel Rhydwilym**

Er y bu'n rhaid gohirio oedfa gyntaf y flwyddyn dan ofal y Parchedig Ken Thomas oherwydd tywydd gwael, cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad Donna George ar Ionawr 25ain (a rhosyn yr un am ei bod hi'n Ddydd Santes Dwynwen!)

Cynhaliwyd oedfa gymundeb hyfryd ar Chwefror 8fed dan ofal Shan Jones. Rhoes Shan deyrnged fer ond annwyl i Eilir Davies, a oedd yn aelod gwerthfawr iawn o deulu Rhydwilym. Roedd Eilir yn amryddawn a gweithiodd yn ddiwyd dros ben - yn canu'r organ, yn gweithredu fel Ysgrifennydd Ariannol, ac yn sicrhau bod popeth yn ei le. Bu hefyd yn drysorydd i gangen Beca o Ferched y Wawr. Bydd bwlch aruthrol ar ei hôl. Roedd colli Eilir mor sydyn ar ôl salwch byr yn sioc ac yn dorcalonnus, a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'i theulu a'i ffrindiau.

Byddwn yn ymuno ag eglwysi'r cylch yng Nghaffi Beca ddydd Sul, Chwefror 22ain i gael Brecwast Gŵyl Dewi yng nghwmni Cleif Harpwood.

Bydd Orinda Roberts yn arwain yr oedfa yn Rhydwilym ar Mawrth 22ain am 10.30, ac ar Ebrill 5ed am 2 o'r gloch bydd oedfa Sul y Pasg yng ngofal Delyth, Gwenallt ac Esther Ifan.

Dymunwn yn dda i Dennis Lewis, Ann Youngman, a Nesta Davies, sy'n anhwylus ar hyn o bryd.




R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972

## SANCLÊR

Roedd LATCH, yr elusen Gymreig a gofal am blant sy'n dioddef o gancr, yn werthfawrogol dros ben i dderbyn y swm anhygoel o £3,625 a godwyd gan Santa a Mrs Claus y llynedd. Bu'r ddau yn ymweld â chartrefi gofal lleol, yn ogystal â diddanu a diddori plant yr ardal yn eu groto yn San Clêr. Ers cychwyn codi arian i LATCH adeg y Nadolig, mae Santa a Mrs Claus wedi codi dros £20,000.
Hoffau'r pâr ddiolch o waelod calon i bawb wnaeth gyfrannu at yr elusen ragorol hon eleni eto. Diolch yn fawr i bawb.



Llongyfarchiadau i Kevin a Nia Ward ar enedigaeth ŵyr newydd. Mab bach i Elan a Rhodri a brawd i Ifan.

Trefnwyd noson gan Menter Iaith Gorllewin Sir Gar ar Ionawr 30ain pan fu Dafydd Pantrod a'i fand, Cefin Vaughan a Dafydd Vaughan, yn diddanu yn y Clwb Rygbi. Cafwyd noson hwylus iawn yn gwrando ac yn ymuno gyda nifer o ganeuon adnabyddus.

## PWLLTRAP

Cydymdeimlwn â Dorothy Jones, Llwynteg a'r teulu ar farwolaeth chwaer Dorothy, sef Haulwen Lewis o Gefn y Pant.

Penblwydd hapus iawn i Rhydian Phillips, Anfield, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Ionawr 31ain.

Bydd Brian Davies, Parc Llwyncelyn, yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Fawrth 15fed. Mae croeso i deulu, cymdogion a ffrindiau ymuno yn y dathlu ar brynhawn Sadwrn, Mawrth 21ain ym Methlehem Newydd rhwng 2 a 4 o'r gloch. Gweinir te prynhawn. Dyw Brian ddim am roddion ond os dymunir gellir gwneud cyfraniad tuag at Parkinsons Cymru.

**Bethlehem Newydd**

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Gerwyn Griffiths, Dol y dderwen (Blaencorse gynt.). Roedd Gerwyn yn aelod annwyl o Fethlehem Newydd ac yn ffyddlon i'r oedfaon tan i'w iechyd ddirywio yn y blynyddoedd olaf. Treuliodd ei oes yn ffermio ym Mlaencorse gyda'i deulu yn parhau i ffermio yno. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i ferched Marian a Sharon a'u teuluoedd ar eu colled.
Maria Evans oedd yn ym Methlehem Newydd ar Ionawr 8fed a chafwyd oedfa fendithiol pryd y clywsom am enwau a labeli ar gymeriadau'r Eglwys Fore.
Oedfa dan ofal yr aelodau gynhaliwyd ar Ionawr 15fed. Cafwyd oedfa hyfryd i ddathlu dechrau blwyddyn newydd. Cafwyd myfyrdod gan Rhodri a Dai Rees oedd yn cyfeilio. Diolch i'r rhai a luniodd yr oedfa ac a fu'n cymryd rhan.
Dafydd Evans oedd â gofal yr oedfa ar Ionawr 24ain a seliodd yr oedfa ar yr adnod o'r Hebreaid oedd yn son am angor gan gyfeirio at y Beibl a Chaneuon Ffydd, yn nyddiau'r "gadgets" fel fast guide. Cafwyd oedfa fendithiol yn ei gwmni.
Trugaredd oedd thema yr oedfa ar Chwefror 1af a chafwyd hanes yr arlunydd Caravaggio a'i luniau. Diolch i'r sawl fu'n llunio'r oedfa ac i bawb a gymerodd ran.
Gweinyddwyd y Cymun gan Rhodri a Dai Rees oedd yn cyfeilio.




Cofiwch am Talwrn y Beirdd a fydd yn cael ei recordio ym Methlehem Newydd ar Fawrth 24ain am 7y.h.
Croeso cynnes i bawb.

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853


CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

**Tŷ Croeso**

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr wedi bod yn cynnal sesiynau adweitheg ar gyfer babis ym Methlehem Newydd drwy gydol mis Ionawr. Yr hyfforddwraig oedd Meleri Brown o Hafan Holistaidd. Pawb wedi mwynhau’n fawr iawn.



# LLANWINIO

Neuadd Llanwinio

**TWMPATH**

**Nos Sadwrn, Chwefror 28ain**

**am 7.30yh**

yng nghwmni

**DAWNSWYR TALOG**
**PHIL HIGGINSON A’R BAND**

**Mynediad £10 yn cynnwys raffl**

**Plant am ddim**

**Lluniaeth ysgafn**



***Dewch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi***
***gyda noson o hwyl***
***Croeso cynnes i bawb***

**Elw tuag at**
**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026**

# PEN-Y-BONT

Cynhaliwyd oedfa arbennig yn ddiweddar yng Nghapel Pen-y-bont i gofio'n annwyl am Mrs Lily May Thomas, Pantshoni. Roedd Lily'n aelod ffyddlon o'r Capel ar hyd y blynyddoedd, a'r Gymanfa Bwnc a'r Gymanfa Ganu yn uchafbwyntiau pwysig ym mywyd Lily May bob blwyddyn. Braint felly oedd derbyn rhodd gan Bwyllgor y Gymanfa Ganu er cof am Lily May. Casglwyd yr arian yn ystod oedfaon y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd ym mis Hydref yng Nghapel y Graig Trelech. Diolch yn fawr iddynt am eu haelioni.



**Yn y llun gweler teulu Lily May ac aelodau o'r Pwyllgor yn cyflwyno'r rhodd i Elinor Jameson, ysgrifenyddes y Capel.**

Hefyd yn ystod yr un oedfa, cyflwynwyd rhodd i'r Capel er cof am Lily May gan ei theulu, Linda, Arwyn a Tomos. Roedd y Capel ym Mhen-y-bont yn agos iawn i galon Lily May ac yn enwedig yr Ysgol Sul. Roedd yn mwynhau yng nghwmni'r rhai ifainc a chydnabuwyd ei hymroddiad i'r Ysgol Sul pan gyflwynwyd y "Fedal Gee" iddi am ei gwaith di-flino gyda'r Ysgol Sul ers dros 50 mlynedd. Roedd Lily May yn ffrind i bawb a gwelir ei heisiau'n fawr gan y gymuned gyfan. Dymuna’r teulu ddiolch yn ddi-ffuant i bawb am eu cyfraniadau hael er cof am Lily May Thomas.



**Yn y llun gwelir aelodau o'r Ysgol Sul, sef Indeg, Fiona, Tomos a Catrin, ynghyd ag Elinor, yn derbyn y rhodd gan Tomos, ŵyr Lily May.**


Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Ken Thomas, Miss Donna George a Mrs Shan Jones am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mawrth 8fed – Hedd Ladd Lewis – Cymun am 10.30
22ain – Orinda Roberts – Cwrdd am 1.30
Ebrill 5ed - Hedd Ladd Lewis Cymun y Pasg am 10.30
19eg – Tudur Dylan Jones – Cwrdd am, 10.30

**Oedfa Sul y Beibl**

Cynhaliwyd oedfa blynyddol Sul y Beibl yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar
fore Sul, Ionawr 18fed. Cyflwynodd Eurfyl ddarlleniad ar ran Calfaria.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Val, Clive, Paul a Marc Owen a Sian Wills a'u teuluoedd ar farwolaeth gwr, tad, tadcu a hen dadcu annwyl iawn sef Les Owen, Llwynglas. Cynhaliwyd angladd Les yn Amlosgfa Parc Gwyn ar Ddydd Sadwrn, Chwefror 7fed a daeth cynulleidfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo. Bu Les yn aelod ffyddlon yng Nghalfaria ac hefyd yn ddeiacon cydwybodol yno ers 2015. Coffa da amdano.

**Penblwydd**

Dymunwn benblwydd hapus iawn i Nigel Vaughan fydd yn 70 oed ar Mawrth 10fed.

**Diolch**

Dymuna teulu y diweddar Margaret Williams, Cilowen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt ar adeg colli mam, mam yng ngyfraith, mamgu a hen famgu annwyl iawn. Diolch o galon i chi gyd.

**Yr Adroddiad Blynyddol**

Dosbarthwyd yr adroddiad blynyddol ar ddechrau mis Chwefror. Diolch i Faith ac Eurfyl am sicrhau fod yr adroddiad yn cael ei argraffu'n brydlon fel arfer.

**Cylch Meithrin Ti a Fi Ffynnonwen**

Cafodd y plant fore i gofio pan aethant ar ymweliad i Maenhir, Login ar wahoddiad " Becws Bets".



Cawsant gyfle i helpu gymysgu cynhwysion y pancos ac wrth gwrs eu bwyta. Mwynhaodd pawb, yn enwedig yr arweinyddion! Fel syrpreis, daeth y teulu ac anifeiliaid iddynt i'w gweld a'i cyffwrdd – wyn, ieir a llo bach. Mawr oedd y cyffro.

Diolchwyd i Betsan â'r teulu am fore llawn hwyl.

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**

Daeth dros ddeugain o'r ardal i fwynhau cinio blynyddol y Gymdeithas yng Nghaffi Beca ar nos Wener, Ionawr 30ain. Cafwyd noson hwylus o fwyta a chymdeithasu, a chyfle i ddod i adnabod pobol yr ardal. Diolchwyd i Robert, Delyth a'u staff am y pryd blasus, a mawr fu'r gwerthfawrogiad o'r adeilad newydd.

Yng nghyfarfod y Gymdeithas ar nos Fawrth, Chwefror 3ydd, trafodwyd ymysg y pethau cyffredinol arall, apwyntio ymddiriedolwyr a'r disgwyliadau ohonynt, a'r angen i gydweithio gyda'r Cylch Meithrin a'u cefnogi ar bob cyfle. Rydym yn ffodus iawn o'r defnydd maent yn gwneud o'r adeilad.

Trefnwyd dathlu Gŵyl Dewi drwy gynnal Noson Cawl a Chân ar nos Wener, Mawrth 7fed am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Bodlonodd nifer o'r aelodau drefni'r noson. Cofiwch ddod a basin a llwy. Dewch a'ch cymdogion gyda chi. Fe fydd yn noson hwylus.

**Cymdeithas Hanes a Diwylliant Login**

Bydd y gymdeithas yn ail gychwyn ar nos Iau, Mawrth 5ed am 7.30, yn yr Amgueddfa Rheilffordd yn Login.. Os oes diddordeb gyda chi yn hanes lleol cofiwch ddod.

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

GLANDY CROSS STORES CYF
Glandy Cross
DAN BERCHNOGAETH NEWYDD
Nwyddau di-ri ar gael ar gyfer unrhyw achlysur gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Coed Tân, 'Top up' Trydan a Loteri
POST OFFICE Esso
Ar agor Llun - Sul
6y.b - 9 y.h.

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

## LLANBOIDY

**Chwaeroliaeth**
Cyfarfu'r aelodau ar brynhawn Mercher, Ionawr 21ain o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda Iddynt. Estynodd groeso i Elinor a Ceulyn o'r Gwasanaeth Tân ac Achub a buont yn trafod diogelwch yn y cartref. Diolchodd Wenfys iddynt am brynhwn addysgiadol. Roedd y te a'r bisgedi yng ngofal Wenfys Rees a Delyth Dent.

**Sefydliad y Merched**
Cystadleuaeth Tenis Bwrdd Sir Gaerfyrddin. Cafwyd tipyn o lwyddiant gan aelodau Llanboidy yn y twrnament hwn yn ddiweddar. Enillodd Jayne a Susan yn eu cystadlaethau unigol gyda Jan yn dod yn drydydd. Daeth Susan a Jayne yn ail yn eu cystadleuaeth i gyplau gyda Jan a Mair yn dod yn 3ydd. Buodd Nia a Jayne ar drip y Sir i Lundain yn ddiweddar gan fwynhau'r golygfeydd, ymweld a sioeau a gwneud ychydig o siopa.



**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gwenllian a Daniel ar enedigaeth merch fach, Elan Gwawr, wyres arall i Owain a Jayne, Sarnau a chwaer i Fflur.

**Diolch**
Hoffai Jayne, John a'r teulu ddiolch i bawb am y caredigrwydd dangoswyd iddynt gan bawb yn yr ardal ar achlysur colli eu mam Norah Heseltine, diolch hefyd am y geiriau caredig ym mhapur bro y Cardi Bach.

## LLANDYSILIO

**Cydymdeimlwn**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i deulu Barrie Young ar ei farwolaeth yn ddiweddar.

...Hefyd trist iawn clywed am farwolaeth Les Owen (Llwynglas) ar Ionawr 18fed, gwr cariadus i Val, annwyl dad i Clive, Paul, Marc a Sian Wills o Landysilio, a'r teulu oll.

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus i Tomos Dugmore, a oedd yn 30 oed ar Ionawr 23ain. Mae Tomos yn fab i Iris ac Andrew Dugmore, Brynhyfryd.



**Llongyfarchiadau**
Cafodd Cheryl a Denzil Davies syrpreis mawr, pan wnaeth Dan Bigger gysylltu a nhw drwy gyfrwng "facetime". Roedd ei mab Rhodri wedi enwebu nhw i dderbyn tocynnau i fynd i weld Cymru a'r Alban yn chwarae rygbi ar Chwefror 21ain. Joiwch.

**Capel Blaenconin**
Fe fuom yn dathlu'r Nadolig ym Mlaenconin yn hwylus dros ben pan ddaeth Huw a Gwawr Roberts atom unwaith eto. Diolch yn fawr iddynt am ddod. Diolch hefyd i Esyllt Thomas a Iwan Jenkins am gymryd rhan arbennig iawn yn y cwrdd. Ar Chwefror 1af, cawsom gwmni Mr Nigel Davies o Llangynin. Hwn oedd y tro cyntaf i Mr Davies fod ym Mlaenconin ac roedd yn hyfryd i gael ei gwmni. Diolch yn fawr. Yr ydym yn edrych ymlaen i Chwefror 15fed pan fydd Mrs Shan Jones gyda ni.


RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

**Capel Pisga**
Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Beibl fore Sul 18fed Ionawr 2026 yng Nghapel Pisga, Llandisilio lle daeth capeli'r gymdeithas at ei gilydd. Thema'r gwasanaeth eleni oedd Merched a rhoddwyd sylw i rai o wragedd y Beibl, er enghraifft Miriam, chwaer Moses a'r barnwr benywaidd Debora, ynghyd â rhai o wragedd nodedig yr unfed ganrif ar hugain. Cafwyd anerchiad ddiddorol ac afaelgar gan y Parch Eirian Wyn Lewis. Diolch yn fawr i aelodau Pisga am drefnu gwasanaeth hyfryd a diolch i gynrychiolwyr y capeli am gymryd rhan.

**Oedfaon**
Mawrth 1af am 9.00y.b Cymundeb - Parchedig Eirian Wyn Lewis
22ain Cyngerdd ym Mhisga gyda'r manylion ar y poster isod.

## CYNGERDD

**Capel Pisga Llandysilio**

DYDD SUL 22 MAWRTH 2026

*5.00 o'r gloch*

Drws ar agor am 4.30

JESS ROBINSON

OWAIN JENKINS

CÔR CRYMYCH

Tocynnau: pris llawn £12 consesiwn £10
Oddi wrth Anna Williams
Anna.williams2047@gmail.com

Haulwen Pridmore
Ffôn symudol 07788 816980

**Eisteddfod Y Garreg Las**
Gweithgareddau ardaloedd Llandysilio a Clunderwen
Ar Ionawr 12fed cynhaliwyd trydydd cyfarfod cynrychiolwyr Llandysilio a Clunderwen sydd wedi bod yng nglŵm a chodi arian ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las. Mae'r gwaith wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r ardal wedi cyrraedd y nôd o £7,000. Ond, mae rhagor o ddigwyddiadau wedi'u trefnu yn barod, ac felly bydd modd helpu ymhellach tuag at holl gostau'r Eisteddfod ym mis Awst.
Ar Mawrth 22ain cynhelir cyngerdd yng Nghapel Pisga yn dechrau am 5 ô'r gloch. Cawn gwmni Jess Robinson, Owain Jenkins a Chôr Crymych.
Hefyd, bwriedir trefnu Twmpath yn Neuadd Clunderwen.

Mae hefyd sawl ffordd arall i gyfrannu sef:
Tocynnau raffl ar gyfer car Fiat Punto gwerth £28,000.
Tocynnau £2 yr un neu £10 y llyfr.
Dyddiaduron yn mynd o gwmpas y ddau bentref.
£1 y tudalen.
Unigolion i roi cyfraniadau ac i ychwanegu 25% trwy lenwi ffurflenni Rhodd Gymorth.
Gall busnesau neu unigolion noddi'r Eisteddfod am isafswm o £50 er mwyn cael eu henw yn rhaglen yr Eisteddfod.

Diolch yn fawr i bawb am eich rhoddion a'ch cefnogaeth hael.
Haulwen Pridmore, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
haulwen.pridmore@hotmail.co.uk

**Cymdeithas Y Beibl**
Cynhaliwyd gwasanaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar Ionawr 18fed.
Y Parchedig Eirian Wyn Lewis oedd y siaradwr gwadd ar ran Pisga.
Diolch i'r capeli yng nghylch Beca am y cyfraniadau ariannol isod dderbyniwyd, yn ogystal â'r casgliad ar y dydd a chyfraniad pawb i'r gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **Bethesda, Llawhaden** | £25 |
| **Bethel, Mynachlog-ddu** | £75 |
| **Blaenconin** | £25 |
| **Calfaria, Login** | £100 |
| **Glandŵr** | £25 |

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn: 07967 220289


SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

| | |
|---|---|
| **Horeb** | £20 |
| **Nebo** | £50 |
| **Pisga, Llandysilio** | £100 |
| **Rhydwilym** | £50 |
| **Cefnypant** | £25 |

**Casgliad o'r gwasanaeth:** £75

**Cyfanswm:** £570.00



## CLUNDERWEN

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Deian James yn 18 oed ar Ionawr 10fed. Mab Wendy a Meredith James.





Penblwydd hapus i Owain Davies, a fydd yn 21 oed ar Mawrth 14eg. Mae Owain yn fab i Emyr ac Andrea, brawd i Emlyn a Iestyn ac yn wyr i John a Pauline Thomas o Arberth.

**Penblwydd Priodas**

Penblwydd Priodas Ddeiamwnt hapus ar Chwefror 12fed i John a Pauline Thomas, Tawelfan, Bloomfield Gardens, Arberth. Llawer o gariad oddi wrth y teulu oll xxx



**Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen**

Ar Ionawr 26ain, roedd y clwb ar rhaglen Heno. Roedd eitem amdanynt yn dathlu'r ffaith taw Clwb Clunderwen oedd y Clwb Ffermwyr ifanc cyntaf yng Nghymru. Mae hyn yn dod pan mae y Mudiad yn dathlu 90 mlynedd. LLONGYFARCHIADAU.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*
Ffôn: 01994 230474

# EFAILWEN

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth Eilir Davies, Tŷ Rhos wedi cystudd blin. Bydd colled fawr ar ei hol yn y gymuned. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i ffrindiau ffyddlon.

**Capel Nebo**

Mwynhaodd Ysgol Sul Nebo ddathliad arbennig ar Chwefror 8fed i nodi penblwydd un o athrawon yr Ysgol Sul, sef Jean Jones, yn 80 oed. Rhoddwyd ymarferion y Pwnc naill ochr i fwynhau parti te o gacennau a jeli a hynny am 9.30 y bore!



Yn y llun mae Jean gyda'r 'adar' – Osian, Charlie, Lewis, Celt, Hannah a Gruff. Diolch yn fawr i'r rhieni am ddod â'r danteithion i helpu i wneud yr achlysur mor arbennig.



Gyda llaw, cynhelir oedfa Bwnc Nebo ddydd Sul, Mawrth 15fed am 10.30 y bore – croeso cynnes i bawb.

**Hoelion Wyth Cangen Beca. – Cyfarfod Ionawr 28ain, 2026.**

Croesawyd yr aelodau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans a cyflwynodd ein siaradwr gwadd sef John Daniels o Gaerfyrddin;- y cyn plismon a ditectif. Ychydig o'i hanes, ei brofiadau ac ambell stori oedd testun ei gyflwyniad.

Un o ardal Rhydaman yn wreiddiol a dechreuodd drwy ddweud taw o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi methu arholiad y '11 Plus' oedd wedi cyfeirio ei yrfa. Golygai hyn ni alle fynd i'r ysgol Ramadeg ond i'r ysgol y 'secondary modern' yn Rhydaman. Ar ôl gorffen yr ysgol honno gyda 6 lefel 'O', cafodd waith yn swyddfa'r DVLA yn Nhreforys. Nid oedd yn hapus iawn yno ac fe berswadiodd ei dad ef i geisio ymuno gyda'r heddlu. Yn dilyn ei hyfforddiant treuliodd flynyddoedd lawer mewn amryw dref yn yr hen Sir Dyfed gan weithio i fyny o fod yn gwnstabl, i dditectif gyda'r 'CID a 'Special Branch' cyn gorffen ei yrfa fel Uwch Prif Arolygwr.

Yn ystod ei gyfnod gyda'r heddlu, buodd yn delio a llofruddiaethau yn Nhregaron, Pennar ac Aberdaugleddau. Roedd hefyd yn rhan o'r tîm ehangach buodd yn gweithio i ddal y smyglwyr cyffuriau ardal Trefdraeth sef y cyrch ac enwyd yn 'Operation Seal Bay'. Dywedodd na fyddai'r cyrch cyffuriau yma wedi bod yn llwyddiannus oni bai am y bobol leol oedd wedi sylwi ar bethau anghyffredin yn digwydd yn eu hardal. Fe oedd yn gyfrifol adeg y gwarchae yn ysbyty Llwynhelyg pan gymerwyd meddyg ifanc yn wystl. Hefyd yn ystod ei gyfnod yn swyddfa Hwlffordd, darganfuwyd offer a thystiolaeth yng nghartref John William Cooper ar ôl iddo gael ei arestio am ddwyn. Drwy ddefnyddio profion fforensig modern daeth yn amlwg bod 'na gyswllt pendant rhwng John William Cooper a'r llofruddiaethau'r Thomas's yn Scoveston yn 1985 a'r Dixons ar lwybr yr arfordir yn 1989. Profwyd hyn a charcharwyd Cooper am oes yn 2011.

Ers cymryd ymddeoliad cynnar o'r heddlu bu'n gweithio fel ymgynghorydd i'r heddlu. Un o'i brif ddyletswyddau oedd bod yn Brif Swyddog Diogelwch i'r gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. Ers 2016 mae John wedi bod yn ymddiriedolwr gyda'r elusen Prostad Cymru ac mae'n weithgar iawn i'r elusen.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
07970 420322


RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Cawsom noson ddiddorol yn ei gwmni a diolchwyd iddo gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.




**Eurfyl Lewis, Eifion Evans a Ken Thomas yn nghwmni'r siaradwr gwadd sef John Daniels.**





## HENDYGWYN AR DAF

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf a diffuant i Heather, Neil, Dafydd a Lowri Jenkins ar farwolaeth tad, tad yng ngyfraith a tadcu annwyl iawn sef John Lewis, Cilgwyn, Trefdraeth yn ddiweddar. ( Gol )

**Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Tabernacl**
Yn anffodus, oherwydd y tywydd rhewllyd, bu rhaid gohirio cyfarfod mis Ionawr o'r Gymdeithas, sef cwrdd gweddi yng ngofal Mrs Elonwy Phillips.
Ym mis Chwefror, croesawyd y Parchedig Beti-Wyn James a ddaeth atom i siarad am ei rôl fel Arwydd-fardd Etholedig Gorsedd Cymru – rôl y mae hi wedi ymgymeryd ers 2022 gan olynu Dyfrig ab Ifor.









Yn ei hanerchiad, fe olreiniodd hanes sefydlu Gorsedd y Beirdd gan Iolo Morgannwg yn 1791 ar Fryn Briallu neu Primrose Hill yn Llundain a sut y bu i seremoni gyntaf yr Orsedd ei chynnal mewn Eisteddfod a gynhaliwyd ar dir Gwesty'r Llwyn Iorwg Caerfyrddin yn 1819. Mae Gorsedd y Beirdd wedi bod yn gysylltiedig â'r Eisteddfod Genedlaethol ers ei sefydliad yn 1860, ond pwysleisir eu bod yn ddau sefydliad ar wahân, gyda'u gweithdrefnau eu hunain.
Siaradodd hefyd am ei dyletswyddau fel yr Arwyddfardd ac fe synwyd at yr holl waith a'r cyfrifoldeb sy'n ddisgwyliedig mewn swydd gwbwl wirfoddol. Dangosodd hefyd luniau o'r stordy enfawr yn Llanybydder, lle cedwir holl adnoddau'r Orsedd megis y gwisgoedd, cerrig yr Orsedd (sydd erbyn hyn yn rai "fibreglass") yn ogystal â chleddyf yr Orsedd, y cadwyni gorseddol a'r gwaywffon hardd mae'r Arwyddfardd yn ei gario. Cafwyd brynhawn difyr iawn ac fe ddiweddwyd y Gymdeithas gyda phaned o de.



**Heather Jenkins, Meurig James a Trefor Evans yn nghwmni Parchg Beti Wyn James.**



**Hoelion Wyth Cangen Hendygwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Ein siaradwr gwadd oedd Daff Davies o Llangain ac estynnwyd croeso cynnes iddo gan y Cadeirydd Claude James. Testun ei araith oedd Taith fy Mywyd. Yn wreiddiol o fferm Tŷ Canol, Llangynog lle bu'n gweithio gyda'i rieni. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Llangynog ac Ysgol Pen Pitch San Cler. Ar ôl priodi, symudodd ef a'i briod i Fferm Plas Maesgwyn, Llansteffan lle bu'n moderneiddio'r eiddo ac ychwanegu tir drwy brynu dwy fferm arall.

Roedd diddordeb mawr ganddo ym mudiad y Ffermwyr Ifanc a bu'n aelod brwd am flynyddoedd ac yn arbenigwr ar agor ffowls, gan gynrychioli Cymru yn Llundain. Bu hefyd ar daith gyfnewid yn yr Almaen.
Gyda phum bachgen arall sefydlwyd tîm rygbi yn San Cler a chawsant lwyddiant mawr am llawer blwyddyn.

Diddordeb mawr Daff ac hefyd ei frawd Del oedd saethu colomennod clau ac roedd y ddau yn arbenigwyr. Bu'r ddau yn bencampwyr Cymru ac gan gynrychioli'i gwlad dros y byd yn cynnwys Mecsico a'r Eidal. Bu Daff hefyd ar y rhaglen Shot Olau ar S4C. Mae hefyd yn chwarae bowls mat byr i Llangain. Pysgota yw un o'i ddiddordebau mawr arall.

Ar ddiwedd ei yrfa'n ffermio, cafodd ei ethol yn Gynghorwr Sir yn cynrychioli Llansteffan, Llangain a Llangynog a bu'n gwneud y swydd am dair blwyddyn ar ddeg. Yn ystod yr amser yma, cafodd ei benodi yn Gadeirydd y Cy ngor.

Noson arbennig yn llawn hiwmor a diolchwyd i Daff gan Ithel Parri Roberts.

**Cylch Meithrin Hywel Dda**

Enillwyr Clwb 200 mis Ionawr:
1af- Rhif 58 Nerys &Joel Read
2il- Rhif 8 Melisa Rees
3ydd- Rhif 41 D & J Sturgess
Buodd y plant yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen trwy amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys creu cardiau pert ar gyfer eu teuluoedd.









**Cardiau Santes Dwynwen plant Cylch Meithrin Hywel Dda.**

**Clwb 100 Canolfan Hywel Dda**

Dyma enillwyr mis Chwefror o Glwb 100 Canolfan Hywel Dda, Hendygwyn:
1af: Ceirios Jenner
2il: Cwmni 'Davies Builders'
3ydd: Eryl Rosser
4ydd: Ruth Davies

## LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Michael Morris, Blaenffynhonnau, sydd yn Ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd yn dilyn damwain ar y fferm ac i Les Evans, Blaenycoed, sydd dal yn Ysbyty Glangwili ar hyn o bryd.
Dymuniadu gorau am wellhad llwyr a buan i'r ddau ohonynt.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr â Neil a Mary Edwards a'r teulu, Pleasant View, ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith, sef Morfydd Edwards o Boncath.

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Jane Thomas, Trem y Cwm, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Ionawr 16eg.
Cofiwn hefyd am Les Evans, Blaenycoed, a oedd yn dathlu ei ben blwydd yn 84 oed ar Ionawr 24ain. Mae Les yn dal yn yr ysbyty ar y pryd, felly penblwydd hapus Les, a brysiwch wella!

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr Cymdeithas Gymraeg Llangynin yn Neuadd y Bryn nos Fercher, Ionawr 14eg.
Y siaradwraig wadd oedd Claire Jones, y delynores Gymreig enwog o Sir Benfro.
Croesawyd Claire i'r Bryn gan hen ffrind iddi ers dyddiau ysgol gynradd, sef y cadeirydd,Dylan John , a mwynhaodd y gynulleidfa awr ddifyr yng nghwmni'r delynores fyd-enwog.
Trwy gyfrwng ffotograffau a ffilmiau fideo, adroddodd Claire hanes ei magwraeth yn Sir Benfro, lle cafodd ei geni ym 1985, a lle dechreuodd ei haddysg gerddorol yn saith oed. Ar ôl rhagori ar y ffidil, y piano a'r delyn, graddiodd fel telynores o'r Royal College of Music (RCM) gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn 2007 ac yn 2009 graddiodd fel ysgolhaig MA o'r Royal Academy of Music (RAM)
Efallai bod Claire yn fwyaf adnabyddus am wasanaethu fel Telynores Swyddogol i Dywysog Cymru (bellach y Brenin Siarl III) o 2007 i 2011. Yn ystod ei chyfnod yn y swydd, hi oedd y delynores frenhinol hiraf ei gwasanaeth ac enillodd gydnabyddiaeth ryngwladol am berfformio yn nerbyniad priodas y Tywysog William a Catherine Middleton ym Mhalas Buckingham yn 2011.
Mae hi wedi rhyddhau sawl albwm clasurol a gyrhaeddodd frig y siartiau,
ac wedi cydweithio ag artistiaid fel Syr James Galway, Bryn Terfel ac Alfie Boe.Yn 2008, gwnaeth Claire ei hymddangosiad cyntaf mewn concerto gyda Cherddorfa Philharmonia, ac ers hynny mae wedi mynd ymlaen i berfformio fel unawdydd gyda rhai o gerddorfeydd blaenllaw'r byd. Mae hi'n angerddol am hyrwyddo ei hofferyn yn ogystal â pherfformio, ac i'r perwyl hwnnw mae hi wedi sefydlu STUDIO47, sef ysgol gerdd sy'n darparu gwersi o'r radd flaenaf ar

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181


Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

gyfer piano, telyn, canu, ffidil, offerynnau chwyth a phres, o fewn ysgolion cynradd a chymunedau yn Ne-orllewin Cymru. Mae hi hefyd yn gyfarwyddwr Ysgol Rhyngwladol y Delyn sydd wedi'i lleoli yng Nghymru. Diolchwyd i Claire am ei chyflwyniad difyr ac edrychwn ymlaen am ei chroesawu hi a'i theulu yn ôl i berfformio yn ystod y Noson Gawl a Chân a gynhelir yn Neuadd y Bryn nos Fawrth Mawrth 6ed

Bydd cyfarfodydd nesaf y Gymdeithas Gymraeg nos Fercher, Chwefror 11eg a nos Fercher, Mawrth 11eg.



**Claire Jones a Dylan.**




# BANCYFELIN

**Capel Bancyfelin**
**Pen-blwydd**

Llongyfarchaidau mawr i Brian Thomas ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed yn ystod mis Ionawr. Pleser gan ei weinidog, Y Parchg Beti Wyn oedd cyflwyno rhodd iddo ar achhlysur ei benblwydd ar ran aelodau Capel Bancyfelin



**Oedfa**

Bu aelodau Capel Bancyfelin yn arwain oedfa undebol dechrau'r flwyddyn yng Nghapel Y Priordy. Cafwyd oedfa arbennig ar y thema 'Darllen' a'r pwysigrwydd i roi amser i ddarllen, gan gynnwys darllen y Beibl.  Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd rhan.




**Capeli Bancyfelin a Cana**
**Paned a Sgwrs**

Cynhaliwyd Paned a Sgwrs cyntaf y flwyddyn yn y Fox and Hounds ddydd Iau, Chwefror 5ed, lle mwynhawyd y cymdeithasu a'r gwmniaeth, heb anghofio'r bara brith a'r picau ar y maen.

LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd Byb
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



**Capel Gibeon**
Trist clywed am farwolaeth Gareth Davies, Y Wenllys (Lanygors gynt), wedi cyfnod o salwch. Un o blant Gibeon. Cydymdeimlwn â Lloyd ac Eiryth , Lyn, Bethan, Iwan a Rhodri, Susan a Sian a'r teulu oll ar eu colled.
Llongyfarchiadau i Mair McCall ar enedigaeth ei ŵyr. Ganwyd mab, Arthur Llewellyn George, i Thomas a'i wraig yn Llundain.
Cynhelir oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel Cana ar nos Wener, Mawrth 6ed am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
Bydd oedfa ar fore Sul, Mawrth 15fed am 10.30 o'r gloch dan ofal yr Ysgol Sul a'r aelodau.

**S4C**
Yn ddiweddar gwelwyd dau gyn-ddisgybl o Ysgol Bancyfelin ar raglenni S4C. Mike Phillips oedd y gwestai gwadd ar un o raglenni'r gyfres "Cyfweliad." Cyfres newydd lle'r oedd criw o holwyr chwilfrydig awtistig, niwro-wahanol a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfle i gyfweld a rhai o wynebau amlwg Cymru. Rhaglen wych. Llongyfarchiadau Mike.

Ar Heno ar ddechrau Ionawr gwelwyd cyn ddisgybl arall sef Sophie Richards, sydd yn gwneud enw mawr i'w hunan ym maes iechyd i ferched. Erbyn hyn mae ganddi dri chwarter miliwn o ddilynwyr ar Instagram ac mae ei llyfr newydd, "The Anti-Infammatory 30 day reset, " sy'n llawn cyngor wedi cyrraedd rhif 1 yn siartiau Amazon a'r Sunday Times. Da iawn, ti, Sophie a dymuniadau gorau am y dyfodol.

Hefyd ar Prynhawn Da ar ddechrau Ionawr, gwelwyd Ms Elsa Davies yn sôn am elusen newydd sydd wedi ei lawnsio, fel, rhan o'i rôl fel Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn.

**Sefydliad y Merched**
**Cyfarfod Mis Chwefror**
Yn ystod ein cyfarfod ym mis Chwefror cawsom y pleser o groesawu Mr Mark Oriel sy'n wreiddiol o SanClêr ond sydd bellach yn byw yn Llansteffan. Rhoddodd Mark sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn i ni ar feddyginiaethau naturiol. Dangosodd yr olwyn feddyginiaeth a elwir weithiau'n ddrwm siamanaidd neu seremonïol, ynghyd ag egluro pob agwedd arni. Cafodd pawb noson bleserus. Darparwyd te, coffi a danteithion gan Mair a Gwyneth. Rhoddwyd gwobr raffl gan Hilary ac enillwyd gan Sue.






**Tenis Bwrdd**
Llongyfarchiadau i ddwy o'n haelodau, sef Mair a Gwyneth a wnaeth gystadlu yn tenis bwrdd yn ddiweddar gyda Mair yn dod yn gyntaf yn y senglau a pharau a Gwyneth yn dod yn 4ydd yn y senglau.







## Cerdd Coffa Jill

Llongyfarchiadau i Wyn Owens ar dderbyn sgor o 9 pwynt a hanner gan y Prifardd Ceri Wyn Jones, Meuryn Talwrn y Beirdd am ei gywydd coffa i Jill o dan y testun “Llwybr Cyhoeddus”. Darlledwyd y gerdd ar raglen Heledd Cynwal ar fore Sul, Chwefror 8fed ac eto ar Talwrn y y Beirdd ar y noson honno.

I gofio Jill
Â’r gobaith maith hyd y mêr
Hon oedd ardal dy ddewrder.
Oet afiaith ein cymdeithas.
Fe heriaist, fe godaist gas
Arnaf i y llwfrgi lleddf
Â’m cwyn sy’n rhan o’m cynneddf.
Trwythaist hyd at yr eithaf
Yn rhan o glwb er yn glaf.
Synnaist bawb, swynaist y byd
A’th aeaf yn haf hefyd.
Enfys a erys ar ôl
I’n dyddiau yw dy waddol.

W.O.



## Portread o Waldo gan Ryland Teifi

Mae Ryland Teifi nol yng Nghymru am gyfnod ac yn portreadu Waldo mewn drama un dyn am y bardd o Sir Benfro. Mae’r ddrama am Waldo yn gynhyrchiad gan gwmni Mewn Cymeriad a lluniwyd y sgript yn gelfydd iawn gan Mererid Hopwood.
Ces i’r pleser o wylio’r ddrama yn Theatr y Gromlech, Crymych ar ddechrau mis Chwefror. Roedd portread Ryland yn holl wych a cafodd y cynulleidfa eu cyfareddu a’u gwefreiddio ganddo. Os cewch gyfle, rwy’n argymell yn gryf eich bod yn mynd i’w gwylio. Fe fydd yn teithio ar draws Cymru hyd ddiwedd Chwefror ac mae son bydd yn ei perfformio eto yn Eisteddfod Y Garreg Las. (Gol)









THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk

*Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin*
*Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel*

MASNACHWYR ADEILADU
*"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"*
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a’i FAB
**Peiriannydd Amaethyddol**

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

## Dydd Gŵyl Dewi

Yfwn gawl a chofiwn gân,
Daw i gof ein gwlad gyfan.
Nid undydd yw ein dwndwr,
Nid sioe yw ein gwledd bid siŵr.
Cawl a chân, cael ychwaneg
Na hawl ar gawl lond y geg.

Dyma wledd lle mae heddwch
Yn bodoli drosti'n drwch.
Dod i ginio'n digonedd
Bwyd cyflawn, hael iawn yw'r wledd.
Un wylaidd iawn yw'r wledd hon,
Gwledd ddig'wilydd y galon.

Cofiwn gri Dewi bob dydd
A'i hawlio benbwygilydd,
Fel Dewi na foed inni
Ychwaith ar ein hymdaith ni
Ochel y pethau bychain,
Ar ein rhawd ymrown i'r rhain.

Cawl a chân eich encil chi.
Cawl a chân clywch ei enwi.
Cawl a chân ein cylch heno.
Cawl a chan, cyfran y co'.
Cawl a chân yn cylchynu
Rhan o fyd yr hyn a fu.

Boed hi'n Ŵyl Dewi bob dydd
I'r heniaith ar y bronnydd,
A nod hen wlad fy nhadau
I wlad glos yn alwad glau.
Daw awydd ddydd Gŵyl Dewi
I ganfod ein hanfod ni.

Mae yn festri'r gwmniaeth
Gymreictod y ddefod ddaeth
Yn rhan o'n hanian a'n hynt,
Yn her oesol pob croeswynt.
Mae'r festri a'i llestri'n llawn
O arlwy a'r lle'n orlawn.

**W.O.**

## PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus i Daniel James o Benybont ar Ogwr a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 8 oed ar Chwefror 27ain. Hefyd, penblwydd hapus i'w chwaer, Harriet, a fydd yn 5 oed ar Fawrth 19eg. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd hapus Luned yn 10 oed, cariad mawr, Mam, Dad, Aneurin a Mamgu a Datcu Colman House.

**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
**EagleSigns**
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
**Cartref Oddi Cartref**

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las**

*parhad o dudalen flaen..*

**Gwirfoddoli**

Byddwn yn recriwtio cannoedd o wirfoddolwyr ar gyfer wythnos yr Eisteddfod i'n helpu ni ar hyd a lled y Maes. Bydd ffurflen gwirfoddoli ar gael o wefan yr Eisteddfod o fis Mawrth ymlaen.

**Stondinau ar y Maes**

Stondinau 3m x 6m: Uned arferol ar y Maes, byddwn yn gosod rhesi o stondinau mewn ardal ganolog o'r Maes.
Cytiau Pren 3m x 2.5m: Cytiau unigol, bydd rhain wedi'u gosod o amgylch y Maes.
Stondinau 3m x 3m: Stondinau llai - perffaith ar gyfer busnes neu gwmni bach sy'n dod i'r Eisteddfod am y tro cyntaf. Bydd rhain hefyd wedi'u gosod mewn rhesi mewn ardal ganolog o'r Maes.
Bydd modd archebu stondin ar y maes ar wefan yr Eisteddfod ar fore dydd Llun, Mawrth 2il, o 10 o'r gloch ymlaen.

**Maes Carafannau**

Mae modd archebu safle carafan am wythnos gyfan neu am gyfnod llai – bydd modd cyflwyno cais ar wefan yr Eisteddfod ar fore Llun, Mawrth 2il, o 10 o'r gloch ymlaen.

**Dyddiadau pwysig arall**

Mawrth 2il – Cyfle i archebu slot ym mhebyll y Cymdeithasau a tocynnau maes ar werth.
Mawrth 4ydd – Tocynnau "Sefyll ar y Sgwar" ar werth
Ebrill 1af – Dyddiad cau ar gyfer holl gystadlaethau cyfansoddi.
Ebrill 1af - Enwebiadau ar gyfer Gwobr / Medal T H Parry Williams ac R Alun Evans.
Mai 1af – Dyddiad cau ar gyfer holl gystadlaethau llwyfana Dysgwr y Flwyddyn.

**Harddu'r Ardal**

Byddwn yn chwilio am bobl i arwain ymgyrch harddu yn ystod y cyfnod at yr Eisteddfod, gan ddechrau ym mis Mai, er mwyn dangos y croeso cynnes sydd i'r Eisteddfod yn yr ardal. Dewch i sicrhau fod Cymru gyfan yn gweld y croeso i'r Eisteddfod a'n hymwelwyr.

**Darlun Comisiwn**

Mae Meirion Jones, yr arlunudd o Aberteifi, wedi ei gomisiynu i greu darlun ar gyfer yr Eisteddfod, edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld ei gampwaith yn fuan. Bydd modd prynu "print" o'r llun maes o law.

**Côr yr Eisteddfod**

Mae Côr yr Eisteddfod wedi ei sefydlu erbyn hyn a'r ymarferion yn cael eu cynnal ar brynhawn Sul yn Ysgolion Uwchradd Aberteifi, Bro'r Preseli Crymych a Caer Elen, Hwlffordd. Byddant yn cymryd rhan yn y sioe "Sefyll ar y Sgwar" yn y pafiliwn ar nos Sadwrn, Awst 1af a nos Lun, Awst 3ydd, yn ogystal a cyflwyno dau ddarn yn y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn ar nos Sul, Awst 2il.

**Cylch yr Orsedd**

Mae'n fwriad gan y Pwyllgor Gwaith i osod Cylch yr Orsedd parhaol ar Sgwar y Crofft – bydd hyn yn waddol barhaol o ymweliad yr Eisteddfod a Llantwd.






**GT TYRES**
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
: 01239 612814 / 07765 034705

**DERI PAGE**
**CIGYDD**
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**HUW JONES**
**ADEILADWR**
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf



Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

**ALLSORTZ**
Hendygwyn ar Daf
Ar agor 6 diwrnod
Cardiau•Baneri•Balŵns
Papur Lapio
Batris Duracell a Panasonic
Deunydd Swyddfa
Cynnyrch Anifeiliaid Anwes
A LLAWER LLAWER MWY

**SONIA'S**
Siop Trin Gwallt
Llandysilio
Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

*Siop Bapurau Hendygwyn*
**Premier**
Ffôn: 01994 240531
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
'Rydym yn gwerthu:
Papurau, Cylchgronnau, Llyfrau, Cardiau, Tegannau, Melysion, Diodydd, Bwydydd a Hufen Ia.
Trwydded gwerthu diodydd alcohol
Loteri

**BAR BECA**
Rhosfach, Efailwen
**Guto Jenkins**
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

COD A SGLODS - FISH & CHIPS
CEGIN-24
BLAS Y MOR AR Y MYNYDD

**DAVIES**
**Builders Merchants**
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Hendygwyn: 01994 240228
San Cler: 01994 230239

**TŶ BACH TWT**
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831144 / 07900 692678




Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
**GWION JENKINS**
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

**GSJ**
**G.S.JENKINS**
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
**Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar**

**PEIRIANNEG MARC JAMES CYF**
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

**SPAR**
**Llanboidy**
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

**Blodau**
*Ar gyfer achlysuron arbennig*
Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygwyn ar Daf.
SA34 0RE.
Ffôn: 01994 240 350
Symudol: 07977 553796
Ebost: meryljames534@btinternet.com



Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

## YSGOL BANCYFELIN

**Gweithdy drama Santes Dwynwen dan arweiniad Lowri Siôn**

Diolch o galon i Lowri Siôn am ddod i'r ysgol i gyflwyno gweithdy stori Santes Dwynwen i Ddosbarth y Llan a Dosbarth Mihangel. Cafodd y plant lawer o hwyl yn dysgu'r stori, gwneud ymarferion drama a chyflwyno dehongliadau arbennig trwy actio'r cymeriadau a'r golygfeydd gwahanol.

**Cwis Dim Clem**



Mwynhaodd ddisgyblion Ysgol Bancyfelin gymryd rhan yn y Cwis Dim Clem o dan arweiniad Menter Gorllewin Sir Gâr. Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni ysgolion Llangain, Griffith Jones, Capel Iwan a Hafodwennog. Pob lwc i fuddugwyr y dydd sef Ysgol Griffith Jones yn y rownd nesaf. Diolch o galon i'r Fenter am drefnu.

**Ficer Ann**

Ymwelodd y Ficer Ann â'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gwasanaeth arbennig ar y thema ffrindiau da. Roedd y gwasanaeth yn gyfle gwerthfawr i atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cyfeillgarwch a dangos caredigrwydd yn ein bywydau bob dydd. Diolch i'r Ficer Ann am ymweliad ysbrydoledig a chofiadwy.

**Gweithdy Codio**

Cafwyd sesiynau digidol hwylus yn Ysgol Bancyfelin o dan arweiniad Mr Heulyn Roderick. Bu plant Dosbarth Cywyn a Dosbarth Mihangel yn treulio'r diwrnod yn gwneud amryw o weithgareddau codio gwahanol. Cawsant gyfle i ddefnyddio'r crwban, rhaglen Logo ar Hwb i greu siapau 2D a chodio Micro:bits er mwyn gwneud nifer o brosiectau gwahanol.

Ysgol Bancyfelin
Dysgu Da, Dyfodol Disglair

## YSGOL BRYNCONIN

**Sioe Nadolig**

Braf oedd cael perfformio ein Sioe Nadolig o flaen cynulleidfa byw unwaith eto a bydd y sioe yma yn fyw yn ein meddyliau am amser hir. Fe wnaeth y plant i gyd eu gwaith yn wych ac rydym yn falch iawn o'r plant i gyd - sêr y dyfodol. Diolch i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y sioe, yn arbennig y staff sydd wedi rhoi oriau ychwanegol i baratoi 'Meri Poppins.'





**Gwasanaeth Diwedd Tymor**

Braf oedd cael cynnal gwasanaeth diwedd y tymor yng nghwmni y plant a'r gymuned ar brynhawn Mercher, Rhagfyr 17eg. Cafwyd cyfle i ddathlu gwaith da y tymor a llongyfarchiadau enfawr i Mali Harries am ennill Tlws Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen am y tymor yma.



**Croeso**

Ar ddechrau tymor newydd estynnwn groeso cynnes i'r disgyblion newydd gan obeithio y byddan nhw yn mwyhau eu hamser gyda ni yn Ysgol Brynconin. Croeso i Charlie, Dennie, Emilia, Harriet, Lili, Mabli a Teddy sydd wedi dechrau gyda ni'n llawn amser a chroeso hefyd i Dafydd, Ellie, George ac Hunter sydd wedi dechrau gyda ni fel disgyblion rhan amser.

**Gwaith y Tymor**

Ein thema y tymor hwn yw 'Iechyd Da' ac rydym yn barod wedi bod yn brysur. Ar ddydd Mawrth, Ionawr 13eg fe wnaethon ni ddysgu'n fwy am draddodiadau yr Hen Galan ac fe aethon ni o gwmpas y pentref gyda'r Fari Lwyd yn dymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i drigolion Ysgol Brynconin.

**Cwis Dim Clem**

Da iawn i Ddosbarth Rhuddem am gymryd rhan yng nghwis blynyddol Menter Iaith Sir Benfro – Cwis Dim Clem ar fore Mawrth, Ionawr 20fed. Llongyfarchiadau enfawr i Ela, Evelyn, Ffion a Thomas am ddod yn fuddugol. Byddan nhw nawr yn cystadlu yn y rownd sirol yn erbyn 5 Ysgol arall am le yn y rownd cenedlaethol.




**Twrnament Pêl Droed yr Urdd**

Llongyfarchiadau i dimoedd Pêl Droed yr Ysgol am gymryd rhan yn nhwrnament pêl droed yr Urdd ar Ddydd Mawrth, Chwefror 3ydd. Fe wnaeth y plant chwarae'n dda mewn twrnament o safon uchel iawn. Diolch i Miss Kim a Wayne am hyfforddi'r plant a diolch i Mrs Hughes a Miss Kim am ofalu ar ôl y plant yn ystod y twrnament.

**Gig Yws Gwynedd yn Neuadd y Frenhines, Arberth**

Ar brynhawn Gwener, Chwefror 6ed cafodd Dosbarth Rhuddem amser da yn gig Yws Gwynedd. Cafodd y weithgaredd hon ei threfnu gan Fenter Iaith Sir Benfro fel rhan o ddathliadau Diwrnod Miwsig Cymru a chynhaliwyd yn Neuadd y Frenhines, Arberth. Braf oedd cael clywed a gweld cerddoriaeth Cymraeg byw – profiad arbennig i'r plant.



## YSGOL BECA

**Gwasanaeth Tân**

Diolch yn fawr i Wasanaeth Tân ac Achub CGC am ymweld â'r ysgol ar Ionawr 16eg i rannu negeseuon diogelwch pwysig. Mwynhaodd y disgyblion wrando a dysgu'n fawr o'r sesiwn addysgiadol.

**Cwis Dim Clem**

Llongyfarchiadau mawr i blant Blwyddyn 6 a ddaeth yn ail yng Nghwis Dim Clem ar Ionawr 21ain. Perfformiad arbennig – da iawn chi! Diolch yn fawr i Fenter Gorllewin Sir Gar am drefnu a chynnal y cwis.



**Rygbi**

Bob wythnos, mae disgyblion Cwm Cerwyn yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau rygbi gyda Ilan o Glwb Rygbi Arberth. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r sesiynau'n fawr. Diolch Ilan.



**Santes Dwynwen**

Fel rhan o her menter, bu'r disgyblion yn dylunio a chreu cardiau Santes Dwynwen i'w gwerthu. Fe wnaethant hefyd greu posteri hysbysebu a marchnata eu cardiau'n llwyddiannus. Roedd y plant yn falch iawn o'u gwaith caled, ac roedd yn wych gweld eu bod wedi gallu gwerthu'r cardiau'n llwyddiannus.

**Thema'r Tymor**

Thema'r tymor hwn yw "Ein Cornel ni o Gymru", lle rydym yn canolbwyntio ar yr ardal leol.

Mae dosbarth Cwm Cerwyn wedi bod yn ymchwilio i wahanol fapiau o Efailwen, gan ddysgu am symbolau ac allweddi map.

Mae dosbarth Carn Gyfrwy wedi mwynhau adeiladu modelau o lefydd yn Efailwen, gan gynnwys Caffi Beca, Siop Glandy Cross ac Ysgol Beca.

**Pêl-droed Urdd Sir Benfro**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol wrth gynrychioli Ysgol Beca yng nghystadleuaeth Pêl-droed Urdd Sir Benfro ar Chwefror. 3ydd. Perfformiad gwych gan bawb – da iawn i chi gyd!



**Gwener Gwyllt**

Yn ystod Gwener Gwyllt, bu'r disgyblion yn defnyddio adnoddau naturiol i gynrychioli unedau gwahanol ac i ddatblygu eu sgiliau lluosogi a rhannu. Cawsant hefyd gyfle i fwynhau gwylio adar fel rhan o'r gweithgareddau Wythnos Gwylio Adar 2026.

**Pontio Ysgol Bro Preseli**

Trefnwyd diwrnod pontio i ddisgyblion blwyddyn 6 i Ysgol Bro Preseli. Cafodd y disgyblion gyfle i ddod i adnabod yr ysgol a'r staff yn ystod y dydd a mwynhau gwahanol weithgareddau.

## YSGOL BRO BRYNACH

**Pêl Rwyd Merched Blynyddoedd 4, 5 a 6**

Ar ddydd Iau, Ionawr 15fed aeth criw o ferched i'r Pod yng Nghaerfyrddin i gymryd rhan mewn cystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd. Gwnaeth y merched yn wych, a datblygon yn dda fel tim wrth i'r bore fynd ymlaen. Da iawn chi ferched!

**Pêl Rwyd Cymysg yr Urdd**

Ar daith i'r Pod gwnaethom unwaith eto ar ddydd Mawrth, Ionawr 20fed. Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i gystadlu yng nghystadleuaeth Pêl Rwyd Cymysg yr Urdd. Gwnaethon nhw'n arbennig o dda yn chwarae fel tîm.




**Cwis Dim Clem**

Ar ddydd Mercher, Ionawr 21ain croesawon Ysgolion Beca a Meidrim i Ysgol Bro Brynach i fod yn rhan o Gystadleuath Cwis Dim Clwm. Gwnaeth tîm Ysgol Bro Brynach ennill o drwch blewyn. Pob lwc yn y rownd nesaf.




**Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen**

Ar ddydd Gwener, Ionawr 23ain penderfynodd criw Siarter Iaith yr Ysgol byddai'n braf i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen drwy ofyn ir disgyblion i wisgo dillad coch neu pinc a bod amrywiaeth o weithgareddau hwylus yn digwydd yn ystod y dydd. Yn ogystal â hyn, roedd pob disgybl wedi bod yn brysur yn ymchwilio, dylunio a chreu pecyn o 5 o gardiau Dydd Santes Dwynwen fel rhan o fenter ysgol gyfan, gyda'r cardiau yma'n cael eu gwerthu i'r rhieni. Roedd y plant wrth eu bodd ac yn edrych ymlaen at anfon cerdyn at eraill fel ffordd o ddangos caredigrwydd.



**Ymweliad y Frigad Dân**

Diolch i Elinor o'r Frigad Dan am ddod allan i weld a siarad gyda disgyblion yr Ysgol. Roedd ganddi stori a neges bwysig i rannu am ddiogelwch tân yn ein cartref a'r hyn dylwn ni ei wneud pan fod tân a phwy fyddai'n gallu helpu ni. Gwnaeth hefyd son am bwysigrwydd i beidio gor-lwytho socedi gyda gormod o blygiau, gwirio fod y larymau tân yn gweithio yn eu cartrefi a beth i wneud os oes tân yn dechrau yn y tŷ. Plant

**Wythnos Iechyd Meddwl**

Ar ddiwedd hanner tymor trefnodd Cyngor Ysgolion Iach yr Ysgol gynnal wythnos iechyd meddwl. Yn ystod yr wythnos bu cyfres o weithgareddau ystyriol gan ddechrau gyda gwasanaeth yn esbonio'r wythnos. Ar ddydd Mawrth gofynnwyd i'r plant ddod ag eitem a oedd yn rhoi cysur iddynt i mewn ir ysgol gan annog trafodaeth agored am bethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel ac yn hapus. Ar ddydd Mercher bu'r disgyblion yn creu map o'i hoff le gan fyfyrio ar leoedd sy'n rhoi tawelwch neu lawenydd iddynt. Cyn gorffen yr wythnos gyda gweithgaredd cerddorol i ddathlu Dydd Miwsig Cymru drwy rannu pa gerddoriaeth sy'n eu gwneud yn hapus. Roedd yr wythnos gyfan yn gyfle gwerthfawr i feithrin ymwybyddiaeth, hyder a lles emosiynol mewn ffordd gadarnhaol.

## YSGOL LLYS HYWEL

**Plant newydd**

Croeso cynnes i'r 8 plentyn newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol gyda ni ar ddechrau'r flwyddyn. Rydym yn falch iawn o'u cael fel rhan o'r ysgol ac yn edrych ymlaen at eu gweld yn setlo'n hapus, yn gwneud ffrindiau newydd ac yn datblygu'n hyderus drwy'r flwyddyn.



**Kerbkraft**

Dyma disgyblion Blwyddyn 1 yn cymryd rhan mewn sesiynau Kerbcraft wythnosol, gan fynd allan i'r gymuned i ddysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd a'r palmentydd, a datblygu sgiliau pwysig i'w cadw'n ddiogel.



**Pêl Rwyd**

Da iawn i ferched Blwyddyn 5 a 6 am gystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd! Bu'r merched yn dangos brwdfrydedd drwy gydol y gemau, gan gynrychioli'r ysgol yn wych.

**Davies Builders**

Diolch yn fawr i Davies Builders o Hendygwyn am eu rhodd garedig o ddeunyddiau, a fydd yn ein helpu ni i roi gweddnewidiad i wahanol ardaloedd yr ysgol.



**Bags2School**

Diolch yn fawr i bawb a fu'n cefnogi'r ysgol drwy ddod â hen ddillad i'r achos 'Bags2School' unwaith eto. O ganlyniad i'r gefnogaeth bydd yr ysgol yn parhau i elwa o'r arian a godwyd.

**Disgo Santes Dwynwen**

Diolch yn fawr i'r CRhA am drefnu disgo Santes Dwynwen i'r ysgol gyfan. Mwynhaodd y plant gyfle i ddawnsio a chymdeithasu wrth wrando ar gerddoriaeth Gymreig, gan greu awyrgylch hapus wrth ddathlu Santes Dwynwen.

**Trip thema bl.3-6**

Fel rhan o'u thema, mae disgyblion Blwyddyn 3–6 Ysgol Llys Hywel wedi bod yn astudio'r Blitz ac yn dysgu am fywyd yr efaciwïaid. Cafodd y disgyblion brofiad bywyd go iawn o deithio ar drên gyda'u cas dillad, gan gael blas ar sut y byddai efaciwi wedi teimlo yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



Hoffwn ddymuno hanner tymor hapus i bawb ar ôl hanner tymor prysur iawn, lle bu'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Diogelwch y We, Dydd Miwsig Cymru ac Wythnos Iechyd Meddwl.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Chwaraeon yr Urdd**
Gwnaeth tîm pêl rwyd y merched hŷn yn ogystal â thîm cymysg yr ysgol ymdrech arbennig yng nghystadlaethau pêl rwyd yr Urdd. Da iawn bawb!



**Tîm pêl rwyd yr Urdd Ysgol Griffith Jones.**



**Ymwelwyr**
Daeth cwmni 'Sbectrwm' i'r ysgol i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 2 a 6, gan gyflwyno gweithgareddau hwylus i'r plant ar sut i greu perthnasoedd iach a sut i ymdopi gyda'r myrdd o deimladau sy'n rhan o fywyd bob un ohonom. Daeth cwmni Mewn Cymeriad atom i gyflwyno perfformiad yn seiliedig ar fywyd a gwaith y Mathemategydd Robert Recorde. Roedd yn rhan o waith thema Cam Cynnydd 3 sef 'Enwogion o Fri'.

**Ymweliadau**
Aeth dosbarthiadau Beca a Gwenllian ar daith i Ganolfan Hamdden Sanclêr i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau ymarfer corff fel rhan o Ŵyl Llythrennedd Corfforol tîm Actif Sir Gâr. Aeth ein Llysgenhadon Chwaraeon hefyd ar ymweliad â'r Ganolfan fel rhan o'u hyfforddiant ar gyfer eu rôl o fewn yr ysgol.

**Dathlu Santes Dwynwen**
Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Bu'r plant yn addurno bisgedi, yn dylunio castell 3D i Dwynwen a Maelon, creu cardiau yn ogystal â chofnodi hanes nawddsant cariadon Cymru.

**Cwis Dim Clem**
Eleni eto bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan yng nghwis Menter Iaith Sir Gâr i ysgolion sef Cwis Dim Clem. Da iawn i'r tîm am ymdrech arbennig sef Alffi Jac, Betsi, Nile ac Ethan.




**Nofio**
Cafodd pedwar o'n dosbarthiadau gyfnod prysur iawn yn ymarfer eu sgiliau nofio ac achub bywyd yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin sef Dosbarthiadau Branwen, Hywel, Rhiannon ac Olwen.



CYFRES Wenfro

# Cawl Mam-gu

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae'n Ddydd Gŵyl Dewi ac mae cawl blasus Mam-gu let-wen yn berwi ar y tân.

**Fedrwch chi enwi cynhwysion ei chawl arbennig?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/03/26**

Ateb Cystadleuaeth Bisgedi Blasus:
NADOLIG LLAWEN oedd neges y bisgedi blasus.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2026

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 1 - Stillorgan) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 2 - Bonington) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN (3 - Enniscorthy) | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mawrth | (Newydd) Penwythnos dirgelwch y llofruddiaeth yn TORQUAY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 12fed Mawrth | Darganfyddwch ardal DOC MARTIN yn ST AGNES, arfordir CERNYW | £450 | 5 Diwrnod |
| Llun 16eg Mawrth | (Newydd) DAWLISH WARREN ac arfordir DYFNAINT | £445 | 4 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mawrth | LOOE, arfordir Cernyw, a'r "EDEN PROJECT" | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mawrth | Penwythnos yn EFROG a'r ardal | £350 | 4 Diwrnod |
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a tê a chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £590 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | (Newydd) CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLD's | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | (Newydd) PASHLEY MANOR - "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | (Newydd) BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |
| Sad 2ail Mai | Teithiau amrywiol o amgylch Ynys JERSEY | £865 | 8 Diwrnod |
| Sad 9fed Mai | (Newydd) ALPAU FFRAINC, CHAMONIX a Llyn ANNECY | £1,285 | 8 Diwrnod |
| Llun 11fed Mai | Rheilffyrdd Rhamantus LLANBERIS a GOGLEDD CYMRU | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Mai | IWERDDON Bantry a'r Gulf Stream Coast | £745 | 6 Diwrnod |
| Gwe 22ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £465 | 3 Diwrnod |
| Sul 24ain Mai | Agêr a Mordaith Afon yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 29ain Mai | WETHERSPOONS WANDERER | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 1af Mehef | Amser Rhamantus yn RYDE ar YNYS WYTH | £620 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Mehef | Afon Frenhinol, Trefi a Gerddi i'w Cofio yn ardal Llundain | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehef | Taith Frenhinol Albanaidd, BALMORAL, GLAMIS ac Arwyr yr ALBAN | £870 | 7 Diwrnod |
| Llun 22ain Mehef | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £585 | 5 Diwrnod |
| Gwe 26ain Mehef | ?????????? TAITH DDIRGEL MEHEFIN ?????????? | £575 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Mehef | ST ANTON a Golygfeydd Godidog o Fynyddoedd y SWISDIR | £1,575 | 8 Diwrnod |
| Sul 5ed Gorff | GOGLEDD IWERDDON ar ei Orau | £899 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Gorff | SIOE FLODAU BADMINTON | £365 | 3 Diwrnod |
| Sul 12fed Gorff | Agêr a Mordaith Afon yn Ardal y Llynnoedd CUMBRIA | £685 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Gorff | LLANDUDNO a Harddwch GOGLEDD CYMRU | £615 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Gorff | WORCESTER a CWM HAFREN | £465 | 4 Diwrnod |
| Llun 27ain Gorff | TAITH DDIRGEL GYFRINACHOL YR HAF | £610 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Awst | CYFRINACHAU CUDD SWYDD BEDFORD | £595 | 5 Diwrnod |
| Mer 5ed Awst | BORDEAUX, DORDOGNE ac Arfordir yr Iwerydd (Mordaith ar Afon) | £2,100 | 9 Diwrnod |
| Llun 10fed Awst | PENNINE EXPLORER | £530 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU DYDD 2026

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Sadwrn 14eg Maw | Gêm Rygbi CYMRU v EIDAL (CAERDYDD) | £22.00 |
| Dydd Mercher 25ain Maw | MARCHNAD Y FENNI a Stondinnau Bric a Brac | £25.00 |
| Dydd Mawrth 31ain Maw | Diwrnod o Siopa yn TRAGO MILLS MERTHYR TUDFUL | £22.00 |
| Dydd Mercher 8fed Ebrill | GERDDI CLYNE a MWMBWLS | £20.00 |
| Dydd Mawrth 28ain Ebrill | ABERYSTWYTH a Pysgod a Sglodion ar y ffordd adre | |
| (bwyd ddim yn y pris) | | £25.00 |
| Dydd Mawrth 5ed Mai | AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN | £22.00 |
| Dydd Sadwrn 9fed Mai | MALVERN Gŵyl Wanwyn yr RHS (Tocyn yn gynwysiedig) | £55.00 |
| Dydd Mawrth 19eg Mai | HENFFORDD (HEREFORD) a Siop Fferm OAKCHURCH | £32.00 |
| Dydd Mawrth 26ain Mai | Diwrnod o Siopa yn McARTHUR GLEN, PENYBONT ar OGWR | £20.00 |
| Dydd Mercher 10fed Mehef | HARBWR BRYSTE yn llawn Siopau, Bwytai a Bariau ger y môr | £32.00 |
| Dydd Mawrth 16eg Mehef | Take That yn Chwarae yng NGHAERDYDD (Bws yn unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth 23ain Mehef | DIWRNOD MARCHNAD Y FENNI | £25.00 |
| Dydd Sadwrn 27ain Mehef | GWYL FWYD a DIOD - BAE CAERDYDD | £22.00 |
| Dydd Sul 28ain Mehef | Metallica: M72 ar Daith - CAERDYDD (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth 30ain Mehef | LEWIS CAPALDI yn CAERDYDD - Blackweir (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Mercher 1af Gorff | LEWIS CAPALDI yn CAERDYDD - Blackweir (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Iau 9fed Gorff | GERDDI CLYNE a MWMBWLS | £20.00 |
| Dydd Mercher 15fed Gorff | ?????????? TAITH DDIRGEL ????????? | £40.00 |
| Dydd Mawrth 21ain Gorff | Blasu Gin a Tê Prynhawn yn CASTELL HENSOL | £75.00 |
| Dydd Mercher 22ain Gorff | SIOE AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU LLANELWEDD | |
| (Bws yn unig) | | £25.00 |
| Dydd Mawrth 28ain Gorff | TAITH yr HAF i BAE CAERDYDD | £22.00 |
| Dydd Mawrth 4ydd Awst | ABERYSTWYTH a Pysgod a Sglodion ar y ffordd adre | |
| (bwyd ddim yn y pris) | | £25.00 |
| Dydd Mawrth 11fed Awst | Canolfan Arddio Yr Hên Orsaf Drênnau a ABERHONDDU | £28.00 |
| Dydd Mawrth 18fed Awst | DIWRNOD MARCHNAD Y FENNI | £25.00 |
| Dydd Gwener 21ain Awst | Diwrnod y Merched yn FFOSLAS (Bwffet Prosecco ar y ffordd) | £65.00 |
| Dydd Mawrth 25ain Awst | HARBWR BRYSTE ac ymweld â Llong SS Great Britain | £50.00 |
| Dydd Mawrth 8fed Medi | TREFYNWY a Chanolfan Siopa LABELS yn Rhosan ar Wy | £30.00 |
| Dydd Mawrth 29ain Medi | Diwrnod o Siopa yn TRAGO MILLS MERTHYR TUDFUL | £22.00 |
| Dydd Mawrth 6ed Hydref | DIWRNOD yn DINAS Hynafol Hyfryd CAERFADDON | £32.00 |
| Dydd Mercher 14eg Hydref | AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN | £22.00 |
| Dydd Mawrth 27ain Hydref | Taith i DDYFFRYN ELAN gyda BWYD yn y FFOSTRASOL ARMS | £50.00 |
| Dydd Mercher 4ydd Tach | MARCHNAD Y FENNI a Stondinnau Bric a Brac | £25.00 |
| Dydd Mawrth 10fed Tach | Canolfan CRIBBS CAUSEWAY BRYSTE | £32.00 |
| Dydd Mercher 18fed Tach | Diwrnod o Siopa yn McARTHUR GLEN, PENYBONT ar OGWR | £20.00 |
| Dydd Mawrth 24ain Tach | FFAIR AEAF FRENHINOL CYMRU yn LLANELWEDD | £25.00 |
| Dydd Gwener 1af Rhag | Siopa yn GLOUCESTER QUAYS | £32.00 |
| Dydd Mawrth 8fed Rhag | Siopa NADOLIG yng Nhanolfan Garddio Yr Hên Orsaf Drennau | £25.00 |
| Dydd Iau 10fed Rhag | CINIO NADOLIG Yng NGHWESTY'r CLIFF, | |
| GWBERT, ABERTEIFI | | £70.00 |
| Dydd Llun 14eg Rhag | SIOPA NADOLIG Yn DINAS Hynafol CAERFADDON | £32.00 |
| Dydd Mawrth 15fed Rhag | SIOPA NADOLIG yn Prif Ddinas CYMRU - CAERDYDD | £22.00 |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# CHWARAEON

## Clwb Rygbi SanClêr


Ar ôl y fuddugoliaeth ddiweddar yng Nghydweli, ein prawf nesaf oedd gêm gartref yn erbyn ein cymdogion o Dalacharn. Chwaraewyd y gêm ar Rhagfyr 13eg o flaen torf wych a gyda thywydd braf roedd y timau, y gwylwyr a'r noddwyr yn edrych ymlaen at y gêm. Dechreuodd Talacharn yn gryf ac yn ystod y 15 munud cyntaf roeddent yn dominyddu'r chwarae a dim ond amddiffyn cryf y Seintiau a gadwodd y gwrthwynebwyr allan. Yn y pen draw sgoriodd Talacharn 3 phwynt. Parhaodd y gêm gyda'r amddiffynfeydd yn dal yn gadarn er bod y Seintiau'n adeiladu tiriogaeth ac roedd y meddiant yn nwylo'r tîm cartref ond methwyd â manteisio ar gyfleoedd i groesi'r llinell a'r sgôr hanner amser oedd 0 – 3.
Dechreuodd yr ail hanner gyda'r blaenwyr yn gwneud rhywfaint o gynnydd da. Llwyddwyd i droi pwysau parhaus yn bwyntiau gyda'r cefnwr Dafydd Waters yn croesi'r llinell i sgorio. Methwyd â throsi gan adael y sgôr yn 5 - 3. Parhaodd y gêm gyda'r ddau dîm yn gwthio'n galed ond yn y pendraw gyda symudiad gwych gan y cefnwr Dafydd Waters, a lwyddodd i dorri trwy amddiffyn Talacharn a'r asgellwr Dafydd Rees yn sgorio. Y sgôr ar y diwedd oedd 10-3 gyda'r Seintiau yn llwyddo i amddiffyn eu mantais.
Gêm oddi cartref yn Llambed oedd nesaf gyda'r Seintiau yn ceisio eu 3ydd buddugoliaeth i ddial am y golled 10 - 15 ar ddechrau'r tymor. Chwaraeodd y ddau dîm yn dda a'r cyfleoedd yn gyfyngedig, er i Lambed fanteisio ar giciau o'r smotyn gyda chiciau rhagorol. Llwyddodd  Che Thomas gyda chais gosb a chais heb ei drosi gan Gino Setero i'r Seintiau a 12-8 oedd y sgôr ar yr hanner.
Ar ôl yr egwyl cafodd y ddau dîm gyfleoedd gyda'r sgôr yn 29 - 20 yn dilyn cais arall gan Gino Setero a droswyd gan Che Thomas. Cic o'r smotyn arall, gyda'r Seintiau yn rhedeg ar eu hôl a Brandon Davies yn sgorio ond heb ei drosi. Yn hwyr yn y gêm, manteisiodd Llambed ar gamgymeriad i fynd â'r sgôr i 37 - 20.

**Gwyndaf Williams**





**Lluniau Chris Rees**



Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
*Felly, peidiwch ag oedi*
*Edrychwn ymlaen i'ch croesawu*



Ffoniwch neu galwch i mewn i drefnu eich apwyntiad
Celia Vlismas
Optegydd
www,vlismas-opticians.co.uk
Castell Newydd Emlyn
2-3 Stryd Sycamor
Castell Newydd Emlyn
SA38 9AP
Ffôn: 01239 711888
Arberth
Meddygfa Rhiannon
Heol Northfield
Arberth
SA67 7AA
Ffôn: 01834 861373

G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin



Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

## Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2025-26**

Mae Clwb Pêl-droed Llanboidy bellach hanner ffordd drwy dymor 2024-25, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae nifer o gemau erbyn hyn, er ddim llawer dros y mis neu ddwy ddiwethaf oherwydd y tywydd. Mae'r adran iau hefyd wedi chwarae nifer o gemau, ac yn aml yn chwarae ar foreau dydd Sadwrn.

**Tîm 1af**

Mae'r tîm cyntaf yn eistedd yn y 9fed safle yn Adran 1 Ceredigion ar hyn p bryd, a hynny ar ol chwarae 11 o gemau. Ers Tachwedd 1af, dim ond dwy o gemau maent wedi chwarae, gan golli un ac un gyfartal.

Mae'r canlyniadau isod:
Rhagfyr 13eg: Llanboidy 0-6 Llechryd
Ionawr 3ydd : Llanboidy 3-3 Crymych (Geth Scourfield x 2, Luke Brisco)

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm sy'n chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2025-26 yn eistedd yn y 6ed safle, a hynny ar ol chwarae 8 o gemau. Dim ond un gêm sydd wedi chwarae ers Tachwedd 1af, gan golli yn erbyn Crannog.

Mae'r canlyniadau dros y mis diwethaf isod:
Ionawr 3ydd: Crannog 8-2 Llanboidy (Rhys Griffiths, Will Abbott)
Mae ymarferion y timoedd 1af a'r 2il ymlaen bob nos Lun ar Astro Ganolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8.00-9.00yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r timoedd adran Iau yn parhau i chwarae, a hynny fel arfer ar foreau Sadwrn. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd hyd yma eleni. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb!

Cyn y Nadolig hefyd, buodd tîm dan 10 y Clwb, yn-ghyd a'u hyfforddwyr a rhieni yng Nghaerdydd i wylio Caerdydd yn erbyn Doncaster yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

**Rhodri Lewis**



**Tîm dan 6 y Clwb**



**Tîm dan 8 y Clwb**

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed


Ffôn:
01994 240857

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com



Tîm dan 10 y Clwb



Tîm dan 12 y Clwb

## Tîm Dartiau Llanboidy



Roedd sioc enfawr yn y Llew Gwyn ym Mhwlltrap ar nos Wener, Ionawr 9fed wrth i Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Llanboidy guro pencampwyr y gynghrair 4-3. Roedd capten newydd y clwb, Steve Pickett yn falch iawn o berfformiad y tîm yn enwedig gan fod Rob Stone mas gyda “flu” a Daniel James (Decs) wedi bod ar goll ers mis Medi.
Os oes diddordeb mewn chwarae dartiau gyda chi, dewch lawr i’r Clwb ar nos Wener. Ni wastad yn edrych am chwaraewyr newydd.

**Alun Griffiths**


Jones Login
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **‘A Fab 4 Days in Liverpool’** | *4 |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |
| Iau 26 | ● *Shen Yun, Abertawe* | 1 |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **‘Avon’s Calling’** | *5 |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | *6 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | *5 |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3 |
| Llun 8 | **Gwesty Warner - Neuadd Thorseby** | *5 |
| Sad 13 | **Rheilffordd Mynydd Aberhonddu** | 1 |
| Sad 13 | ● *Sioe Gerdd - Waitress, Caerdydd* | 1 |
| Maw 16 | ● *Take That, Caerdydd (Bws yn unig, dim tocyn)* | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | *6 |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |
| Sad 11 | ● *Sioe Gerdd - Annie, Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 & Mer 22 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Llun 27 | **Llandudno** | *5 |
| **Awst 2026** | | |
| Llun 3, Mer 5 a Gwe 7 | Eisteddfod ardal ‘Y Garreg Las’ | 1 |
| **Medi 2026** | | |
| Llun 7 | **Caerwynt a’r Goedwig Newydd** | *5 |
| Sad 12 | **Sioe Gerdd Paddington** | 2 |
| Llun 14 | ● **Gwesty Warner - Castell Studley** | *5 |
| Llun 21 | **Eastbourne** | *5 |
| **Hydref 2026** | | |
| Iau 1 | **Swindon ac Ysbryd Arloesol y Cotswolds** | *5 |
| Gwe 9 | **Gwesty Warner - Tŷ Littlecote** | *4 |
| Sad 17 | ● **ABBA Voyage** | 2 |
| Sul 18 | ● *Kevin Bridges, Caerdydd* | 1 |
| Sad 24 | ● *Sioe Dirty Dancing, Caerdydd* | 1 |
| Llun 26 | **Ynys Wyth** | *5 |
| **Tachwedd 2026** | | |
| Gwe 6 | **Twrci a Tinsel, Torquay** | *4 |
| Llun 23 | ● **Gwesty Warner - Runnymede on Thames** | *5 |
| Sad 28 | **Gwyl Olau ‘Glow’ RHS Wisley** | 2 |

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / ● = Teithiau newydd sydd ddim yn llyfryn 2026**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**